

**PRIFYSGOL CAERDYDD**

**ORDINHADAU**

1. [Dehongliad](#)
2. [Aelodau'r Brifysgol](#)
3. [Rheolau Sefydlog](#)
4. [Y Cyngor](#)
5. [Y Senedd](#)
6. [Canghellor a Rhag-gangellorion](#)
7. [Llywydd ac Is-Ganghellor](#)
8. [Dirprwy Is-Ganghellor a Rhag Is-Gangellorion:](#)
9. [Cyrff Academaidd](#)
10. [Pwyllgorau](#)
11. [Ysgrifenydd y Brifysgol](#)
12. [Staff Academaidd](#)
13. [Undeb y Myfyrwyr](#)
14. [Gweithredu Dogfennau gan y Brifysgol](#)
15. [Dyfarniadau Prifysgol Caerdydd](#)

## **ORDINHAD 1**

### **DEHONGLIAD**

#### **1. Diffiniadau**

- (1) Oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd i'r geiriau sy'n cael eu diffinio yn y Siarter neu yn y Statudau hyn yr un ystyr yn yr Ordinhadau ac yn y Rheoliadau.
- (2) Yn yr Ordinhadau hyn:
  - (i) Ystyr "Prifysgol" yw Prifysgol Caerdydd;
  - (ii) Ystyr "cyn-fyfyrrwyr" yw graddedigion, deiliaid diplomâu neu ddeiliaid tystysgrif arall y Brifysgol a'i sefydliadau rhagflaenol;
  - (iii) Ystyr "Coleg" yw un o Golegau'r Brifysgol fel y nodir yn Ordinhad 9 – Cyrff Academaidd;
  - (iv) Ystyr "gwasanaethau proffesiynol" yw "... gwasanaethau gweinyddol y Brifysgol, beth bynnag y bo lleoliad y gwasanaethau hynny".

**ORDINHAD 2**

**AELODAU'R BRIFYSGOL**

1. Bydd y canlynol yn Aelodau Prifysgol Caerdydd
  - (1) Y Canghellor, y Rhag Gangellorion, y Llywydd a'r Is-Ganghellor, Cadeirydd y Cyngor a Swyddogion eraill;
  - (2) aelodau'r Cyngor a'r Senedd;
  - (3) gweithwyr Prifysgol Caerdydd;
  - (4) Myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr Prifysgol Caerdydd a'r sefydliadau a'i rhagflaenodd;
  - (5) unigolion eraill fel y'u diffinnir gan benderfyniad y Cyngor.

**ORDINHAD 3**

**RHEOLAU SEFYDLOG SY'N RHEOLI'R CYNGOR, Y SENEDD A  
PHWYLLGORAU ERAILL PRIFYSGOL CAERDYDD**

**CYNNWYS**

- 1 Cymhwysu'r Rheolau Sefydlog hyn
- 2 Sefydlu Pwyllgorau
- 3 Aelodaeth Pwyllgorau
- 4 Aelodau Etholedig: Enwebiadau, Etholiadau a Phleidleisiau
- 5 Aelodau Lleyg: Apwyntiadau
- 6 Y Cadeirydd
- 7 Cworwm
- 8 Cyfarfodydd a Rhybudd o Gyfarfodydd
- 9 Cymryd rhan drwy gynadledda fideo/ffôn
- 10 Trefn Busnes
- 11 Busnes Cyfrinachol a Busnes Neilltuedig
- 12 Cofnodion ac Adroddiadau
- 13 Dirprwyaethau
- 14 Eitemau cyn y cyfarfod - Cynigion
- 15 Pleidleisio mewn Cyfarfodydd
- 16 Rheolau Dadlau
- 17 Ymddygiad Afreolus ac Atal Eistedd
- 18 Diddordeb Aelodau'r Pwyllgor mewn Contractau a Materion eraill
- 19 Dirprwyo Dyletswyddau, a Phwerau a Swyddogaethau

## **1. Cymhwyso'r Rheolau Sefydlog hyn**

Bydd y Rheolau Sefydlog hyn yn llywodraethu ymddygiad y Cyngor, y Senedd a'u Prif Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau fel y nodir yn Ordinhad 10.

Oni bai bod y cyd-destun fel arall yn ei gwneud yn ofynnol, bydd i'r geiriau, cyfeiriadau a mynegiadau eraill a ddefnyddir yn yr Ordinhad hwn yr un ystyr ag sydd iddynt yn y Siarter neu'r Statudau.

Bydd Cyfarfodydd Cyffredinol Undeb y Myfyrwyr, a chyfarfodydd ei Gyngor a Phwyllgorau eraill, yn gweithredu o dan Reolau Sefydlog sydd i'w sefydlu o dan Gyfansoddiad Undeb y Myfyrwyr.

## **2. Sefydlu Pwyllgorau**

2.1 Bydd Pwyllgor yn cael ei sefydlu trwy, neu yn unol â phwerau a roddir yn y Siarter, y Statudau a'r Ordinhadau, neu drwy Benderfyniad y Rhiant Bwyllgor, a bydd ganddo gylch gwaith parhaus yn hytrach na chylch gwaith cyfyngedig o ran amser.

2.2 Oni bai y gwaherddir yn benodol yn wahanol, bydd gan bob Pwyllgor bŵer i sefydlu Is-Bwyllgorau, a gall ddirprwyo unrhyw bwerau neu swyddogaethau o fewn ei gylch gwaith.

2.3 Ac eithrio lle y darperir ar ei gyfer drwy Ordinhad, caiff Pwyllgor drwy Benderfyniad osod neu ddiwygio Cyfansoddiad unrhyw un o'i Is-Bwyllgorau. Bydd gan bob Is-Bwyllgor y pŵer i wneud sylwadau ac argymhellion i'w Riant Bwyllgorau am eu Cyfansoddiadau eu hunain.

## **3. Aelodaeth Pwyllgorau**

3.1 Oni ddarperir yn benodol fel arall, bydd Cadeirydd y Cyngor a'r Llywydd a'r Is-Ganghellor yn aelodau ex officio o holl Brif Bwyllgorau'r Cyngor ac o holl Gyd-bwyllgorau'r Cyngor a'r Senedd. Bydd y Llywydd a'r Is-Ganghellor yn aelod ex officio o holl Brif Bwyllgorau'r Senedd.

### **3.2 Aelodau Pwyllgorau**

Mae pob aelod o'r Pwyllgorau yn rhannu'r un cyfrifoldebau a rhwymedigaethau, waeth beth yw mecanwaith eu hapwyntiad. Bydd aelodau'n cadw at yr egwyddor o wneud penderfyniadau ar y cyd ac yn osgoi rhoi buddiannau penodol neu bersonol cyn rhai'r sefydliad.

- .1 Penodir neu etholir 'aelod' o Bwyllgor yn unol â Statudau, ag Ordinhadau, â Rheoliadau neu a Phenderfyniadau fel y bo'n berthnasol.
- .2 Bydd 'aelod ex officio' yn aelod yn rhinwedd swydd neu benodiad.
- .3 Bydd 'aelod cyfetholedig' yn cael ei wahodd gan y Pwyllgor i wasanaethu, o dan ei bwerau cyfethol, a bydd yn aelod llawn o Bwyllgor gyda hawliau siarad a phleidleisio.
- .4 Bydd 'Swyddog Pwyllgor' yn aelod o staff a wahoddir yn rheolaidd gan y Cadeirydd i fynychu ei gyfarfodydd; ni fydd personau o'r fath yn aelodau nac â phwerau pleidleisio a gellir ei gwneud yn ofynnol ar unrhyw adeg iddynt dynnu'n ôl o'r cyfarfod gan y Cadeirydd neu drwy benderfyniad syml y Pwyllgor.

- .5 Bydd 'Sylwedydd' yn berson fydd yn cael ei wahodd gan y Cadeirydd i fynychu ei gyfarfodydd; ni chaiff personau o'r fath fod yn aelodau o'r Pwyllgor, ac nid oes ganddynt bŵer siarad (ac eithrio trwy wahoddiad y Pwyllgor) neu bleidleisio a gellir fod yn ofynnol iddynt adael y cyfarfod ar gais y Cadeirydd neu drwy benderfyniad syml y Pwyllgor ar unrhyw adeg.

### 3.3 Cyfnod y Swydd

- .1 Bydd aelod ex-officio o'r Cyngor yn aelod o'r Cyngor cyhyd ag y bydd yr aelod hwnnw'n parhau i fod yn y swydd neu'r safle sy'n gymwys.
  - .2 Fel arfer, bydd aelod o fyfyrwr yn y swydd am flwyddyn o 1 Gorffennaf. Os yw'r person yn peidio â bod yn Fyfyriwr yn ystod cyfnod swydd yr aelod hwnnw, bydd swydd wag achlysurol.
  - .3 Bydd unrhyw aelod arall yn dal ei swydd am dair blynedd, oni bai bod y Pwyllgor yn pennu cyfnod gwahanol (hyd at uchafswm o bedair blynedd) neu nad yw'r aelod yn gymwys i fod yn aelod mwyach ac, os digwyddai hynny, bydd swydd wag achlysurol.
  - .4 Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau bydd pob cyfnod o'r swydd yn dechrau, neu bernir ei fod yn dechrau, ar ddiwrnod cyntaf Awst ym mlwyddyn galendr y penodiad. Ni fydd aelodau fel arfer yn gymwys i wasanaethu am fwy na dau gyfnod yn olynol yn yr un capasiti neu am fwy nag uchafswm o wyth mlynedd yn olynol, oni phennir cyfnod gan Ordinhad.
  - .5 Pan fydd Pwyllgor yn cael ei sefydlu gyntaf bydd cyfnodau gwasanaeth yr aelodau yn cael eu darwahanu er mwyn sicrhau cylchdroi; gellir gwneud hyn naill ai drwy fwrw coelbren neu drwy amrywio hydoedd cyfnodau gwasanaeth, neu drwy ddulliau addas eraill.
  - .6 Mae pob aelod yn ddarostyngedig i'r darpariaethau ar gyfer dileu aelodau a nodir yn adran 3.10 isod, gan gynnwys aelodau ex-officio.
- 3.4 Gall aelod ymddiswyddo ar unrhyw adeg: bydd ymddiswyddiad yn ysgrifenedig a bydd mewn grym o'r diwrnod ar ôl cyfarfod nesaf y Pwyllgor pan dderbynnir hysbysiad gan Ysgrifennydd y Pwyllgor neu'n ddiweddarach fel y cytunir arno gyda'r Cadeirydd.
- 3.5 Mae swyddi gwag achlysurol yn codi o ymddiswyddiad, ymddeoliad neu farwolaeth aelod, neu pan fydd aelod yn peidio â bod yn gymwys i fod yn aelod. Bydd swyddi gwag o'r fath yn cael eu llenwi trwy ddilyn yr un dull ag a ddefnyddir wrth benodi'r aelod y daeth ei swydd yn wag. Bydd y person a benodir i lenwi'r swydd wag yn dal y swydd am gyfnod y swydd sy'n weddill, neu, pe bai swydd wag achlysurol yn codi ychydig cyn diwedd cyfnod y swydd, gall y Pwyllgor benderfynu caniatáu i'r swydd wag barhau nes bod cyfnod y swydd yn dod i ben.
- 3.6 Oni bai ei fod wedi'i wahardd fel arall wrth iddo gael ei sefydlid, bydd gan bob Pwyllgor bŵer i benodi aelodau cyfetholedig. Ni fydd cyfanswm yr aelodau cyfetholedig yn fwy na chwarter nifer yr aelodau eraill.
- 3.7 Bydd gan bob Pwyllgor bŵer i wahodd pobl nad ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor hwnnw i fynychu ei gyfarfodydd fel Arsylwyr.

- 3.8 Caniateir presenoldeb dirprwy i aelod o Bwyllgor ar sail ad hoc yn ôl disgresiwn y Cadeirydd. Ni chaiff aelodau cyfetholedig anfon dirprwy.
- 3.9 Os bydd aelod etholedig yn ymgymryd â secondiad yn ystod ei gyfnod yn y swydd, sy'n ei adael yn anghymwys dros dro i barhau yn ei apwyntiad, gall enwebu unigolyn i fynychu fel aelod yn ei le, gyda chytundeb y Cadeirydd, a chyda'r angen i sicrhau bod yr enwebai'n gymwys o fewn y categori aelodaeth. Yn yr un modd, gall aelod awgrymu enwebai pe bai yn ymgymryd â chyfnod sylweddol o absenoldeb (e.e. absenoldeb rhiant).

### 3.10 Dileu Aelodaeth o Aelod

- .1 Gellir gwneud cais i Gadeirydd y Cyngor Llywodraethu i ddileu aelodaeth aelod am reswm da yn unol â'r drefn a ddisgrifir isod:
- (1) mae'n rhaid i gais gael ei wneud gan o leiaf ddau aelod o'r Cyngor, gan roi'r rhesymau dros ei dileu.
  - (2) os bydd Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu yn penderfynu bod achos prima facie, bydd Panel yn cael ei sefydlu, sy'n cynnwys tri aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu (neu'r Cyngor yn achos cais i ddileu aelodaeth aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu), a bydd un ohonynt yn cael ei benodi'n Gadeirydd;
  - (3) bydd y Panel yn derbyn sylwadau gan yr aelodau sy'n cyflwyno'r cais a chan yr aelod sy'n destun y cais;
  - (4) bydd y Panel yn gwneud argymhelliad i'r Pwyllgor Llywodraethu (neu i'r Cyngor yn achos cais i ddileu aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu) ynghylch a ddylid derbyn neu wrthod y cais ai peidio;
  - (5) bydd y mater yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor o dan 'Busnes Neilltuedig'.
- .2 Gall seiliau dros gael dileu aelodaeth am reswm da gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, ymddygiad amhriodol, amhriodoldeb ariannol, torri cyfrinachedd, methu mynychu cyfarfodydd. Dylid gofyn am gyngor gan Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol ar gymhwyso'r weithdrefn hon.
- .3 Os yw'r cais i ddileu aelodaeth yn ymwneud â Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu, dylid cyfeirio'r mater at Gadeirydd y Cyngor a fyddai'n gweithredu fel y Cadeirydd.

## 4. **Aelodau Etholedig: Enwebiadau, Etholiadau a Phleidleisiau**

### Enwebiadau

- 4.1 Pan fydd swydd ar fin dod yn wag neu, yn achos swydd wag achlysurol, pan fydd swydd wedi dod yn wag, bydd swyddi gwag yn cael eu hysbysebu, a gwahoddir enwebiadau. Fel arfer mae'n rhaid derbyn pob enwebiad erbyn hanner dydd ar y dyddiad a bennir yn yr hysbyseb enwebiadau.
- 4.2 Bydd enwebiadau i lenwi swyddi gwag ar Bwyllgorau yn cael eu gwneud i'r Tîm Llywodraethu Corfforaethol. Bydd enwebiadau o'r fath yn cario enw'r cynigydd a'r eiliwr a, pan fo'n ymarferol, gytundeb y person a enwebwyd. Mae'n rhaid i bob parti (gan gynnwys cynigwyr ac eilwyr) fod yn gymwys i gyflawni'r rôl, gan fod yn aelodau o'r etholaeth berthnasol. Gall unigolion

weithredu fel cynigydd ac eiliwr i nifer o enwebiadau os ydynt yn parhau'n gymwys.

- 4.3 Pan dderbyniwyd digon o enwebiadau i lenwi'r holl swyddi gwag erbyn y dyddiad cau penodedig, ni dderbynnir unrhyw enwebiadau pellach ar ôl hynny. Bydd enwebiadau'n cael eu derbyn ar gyfer swyddi gwag os na dderbyniwyd digon o enwebiadau ar ôl y dyddiad cau, hyd at y pwynt lle mae penodiadau'n cael eu cadarnhau.
- 4.4 Os yw nifer yr enwebiadau yn cyfateb i nifer y swyddi gwag datgenir bod yr enwebeion wedi'u hethol heb bleidlais bellach.
- 4.5 Os yw nifer yr enwebiadau'n fwy na nifer y swyddi gwag, bydd penodiad yn cael ei wneud trwy bleidlais gudd.
- 4.6 Os yw nifer yr enwebiadau'n llai na nifer y swyddi gwag, datgenir bod y rhai a enwebwyd wedi cael eu penodi heb bleidlais bellach a gofynnir am enwebiadau pellach.

#### Etholiadau a Phleidleisiau

- 4.7 Bydd etholiadau'n cael eu cynnal trwy bleidlais gudd a bydd yr enwebeion yn cael y cyfle i ddarparu datganiad personol ar gyfer y bleidlais. Ar ôl cyhoeddi'r bleidlais, ni ellir diwygio datganiadau personol, oni bai am gywiro gwall ffeithiol.
- 4.8 Bydd gan bob person sydd â'r hawl i bleidleisio gymaint o bleidleisiau ag sydd o swyddi gweigion.
- 4.9 Os yw'r bleidlais yn parhau yn gyfartal ar y dyddiad cau, mae'n bosibl y bydd yn cael ei ymestyn i ganiatáu i'r rhai sydd heb bleidleisio fwrw pleidleisiau. Os yw'r bleidlais yn parhau yn gyfartal ar ôl estyniad, gellir galw pleidlais newydd, neu gall Cadeirydd y Pwyllgor benderfynu ar yr ymgeisydd llwyddiannus.
- 4.10 Bydd y swyddi gwag yn cael eu llenwi gan yr ymgeisydd/ymgeiswyr sydd wedi derbyn mwy o bleidleisiau na'r ymgeiswyr eraill.
- 4.11 Bydd deunydd pleidleisio a chanlyniadau'n cael eu hadolygu gan Archwilydd a chan Swyddog Etholiad Annibynnol.
- 4.12 Bydd pob penodiad yn cael ei gadarnhau gan Gadeirydd y Cyngor.

#### **5. Aelodau Lleyg: Apwyntiadau**

- 5.1 Pan fydd y swydd ar fin dod yn wag neu, yn achos swydd wag achlysurol, pan fydd swydd wedi dod yn wag, bydd swyddi gwag fel arfer yn cael eu hysbysebu, a chymwysiadau neu enwebiadau yn cael eu gwahodd.

#### **6. Y Cadeirydd**

- 6.1 Bydd y Cadeirydd, neu ddull penodi'r Cadeirydd, yn cael ei ddiffinio yng Nghyfansoddiad y Pwyllgor neu drwy Ordinhad. Bydd cyfnod swydd Cadeirydd (heblaw am Gadeirydd ex officio) yn dair blynedd, gan ddechrau fel arfer ar ddiwrnod cyntaf mis Awst ym mlwyddyn galendr y penodiad. Ni fydd y Cadeirydd fel arfer yn gymwys i wasanaethu am fwy na dau gyfnod yn olynol yn yr un rôl neu am fwy nag uchafswm o wyth mlynedd yn olynol. Os penodir aelod presennol o'r Pwyllgor fel y Cadeirydd yn ystod eu cyfnod, bydd cyfnod



eu penodiad fel Cadeirydd yn cyd-fynd â'u cyfnod gwreiddiol yn y swydd fel aelod.

- 6.2 Bydd y Cadeirydd yn llywyddu'r cyfarfod neu yn ei absenoldeb yn trefnu i aelod arall weithredu fel Cadeirydd ar gyfer y cyfarfod cyfan neu ar gyfer rhan ohono.
- 6.3 Bydd gan Gadeirydd Pwyllgor bŵer mewn mater o frys, neu pan ymddengys i'r Cadeirydd fod yn ddymunol, i weithredu ar ran y Pwyllgor. Gwneir adroddiad o unrhyw gamau a gymerir i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf.

## **7. Cworwm**

- 7.1 Oni nodir fel arall yn y Siarter, y Statudau, yr Ordinhadau neu yng Nghyfansoddiad y Pwyllgor, cworwm Pwyllgor fydd y rhif cyfan uchaf agosaf i draean o'r aelodaeth. At y diben hwn, ni fydd aelodau cyfetholedig yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm yr aelodaeth.
- 7.2 Os na fydd cworwm, ni fydd Pwyllgor yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar fusnes y cyfarfod a bydd y Cadeirydd yn penderfynu a ddylid gweithredu ar ran y Pwyllgor mewn perthynas ag unrhyw faterion sy'n gofyn am ddatrysiad, i ailymgynnull y cyfarfod neu i gyfeirio materion o'r fath i'w datrys gan y Pwyllgor Rhieni yn ei gyfarfod nesaf.
- 7.3 Rhoddir o leiaf dri diwrnod gwaith clir o rybudd bod y cyfarfod wedi'i ailymgynnull.
- 7.4 Os, yn ystod cyfarfod, na fydd gan y Pwyllgor gworwm, bydd Rheol Sefydlog 7.2 yn berthnasol o'r foment honno. Os nodir ar ôl cynnal cyfarfod bod y Pwyllgor naill heb gworwm neu'n dod heb gworwm yn ystod y cyfarfod, bernir bod yr holl Benderfyniadau a wnaed pan oedd y Pwyllgor heb gworwm yn annilys ac yn ddi-rym a bydd Rheol Sefydlog 7.2 mewn grym.

## **8. Cyfarfodydd a Rhybudd o Gyfarfodydd**

- 8.1 Bydd dyddiadau cyfarfodydd y Senedd, y Cyngor a Phwyllgorau eraill yn cael eu cyhoeddi mewn calendr o gyfarfodydd a'u rhannu ag aelodau, ond gall dyddiadau o'r fath gael eu amrywio drwy benderfyniad y pwyllgor dan sylw. Bernir bod cyhoeddi'r calendr ar wefan y Brifysgol yn ddigon o rybudd am gyfarfodydd.
- 8.2 Bydd y Cyngor a'r Senedd yn cyfarfod o leiaf dair gwaith yr un yn ystod y flwyddyn academaidd.
- 8.3 Bydd Prif Bwyllgorau ac Is-Bwyllgorau'r Cyngor a'r Senedd yn cwrdd ar adegau digonol a phwyntiau priodol yn y flwyddyn academaidd i alluogi adrodd ar fusnes yn brydlon i'w Rhiant Bwyllgorau.
- 8.4 Bydd hysbysiad o'r cyfarfod yn cael ei anfon bum diwrnod gwaith cyn y Cyfarfod, gan nodi'r busnes sydd i'w drafod yn y Cyfarfod ('yr Agenda') a chopi o'r papurau i'w hystyried. Dim ond yn ôl disgrisiwn y Gadair y bydd papurau hwyr yn cael eu hystyried.
- 8.5 Bydd cyfarfodydd y Pwyllgorau sydd wedi'u trefnu'n arbennig i ddelio ag eitemau penodol a/neu gyfyngedig o fusnes yn cael eu dynodi'n Gyfarfodydd Arbennig.

- 8.6 Gellir galw Cyfarfodydd Arbennig trwy gyfarwyddyd y Cadeirydd neu ar gais o leiaf ddeng aelod neu chwarter yr aelodau (pa rif bynnag sydd is). Rhoddir digon o rybudd o alw Cyfarfodydd Arbennig i'r Ysgrifennydd (gan nodi'r busnes y mae'r Cyfarfod yn cael ei alw ar ei gyfer) i alluogi rhoi o leiaf dri diwrnod gwaith clir o rybudd am y cyfarfod ac o'r busnes. Bydd yr Ysgrifennydd yn galw am i'r cyfarfod gael ei gynnal o fewn pedair wythnos i dderbyn rhybudd o'r fath.
- 8.7 Bydd cofnodion ac Adroddiadau o Gyfarfodydd Arbennig yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor a bydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn ar gyfer Cofnodion ac Adroddiadau Is-Bwyllgorau fel y manylir yn Rheol Sefydlog 12.

## **9. Cymryd rhan drwy gynadledda fideo/ffôn**

- 9.1 Pan fo angen, a gyda chytundeb y Cadeirydd, gellir cynnal cyfarfod Pwyllgor drwy gynadledda fideo/dros y ffôn (h.y. yn rhithwir) neu drwy gyfuniad o fformat rhithwir ac wyneb yn wyneb (h.y. hybrid) i alluogi aelodau a chyflwynwyr i gymryd rhan mewn cyfarfodydd. Gall hyn fod ar gyfer y cyfarfod gyfan neu ar gyfer eitemau penodol yn unig.

## **10. Trefn Busnes**

- 10.1 Fel arfer, bydd trefn y busnes yn cael ei drafod mewn cyfarfod yn dilyn trefn yr agenda a bydd bob amser yn cynnwys y gallu:
- .1 i ddarllen a chymeradwyo fel cofnod cywir (neu ymdrin â nhw fel arall) Cofnodion Cyfarfod blaenorol y Pwyllgor;
  - .2 i ddelio â materion sy'n codi o Gofnodion y Cyfarfod blaenorol os nad yw fel arall ar yr Agenda;
  - .3 i dderbyn, darllen, ystyried a delio'n briodol â Chofnodion, Adroddiadau, a Phapurau.
- 10.2 Bydd cais i amrywio trefn busnes yn ôl disgrisiwn y Cadeirydd.

## **11. Busnes Gyfrinachol a Busnes Neilltuedig**

- 11.1 Mae dyletswydd ar aelodau'r pwyllgor a'r rhai sy'n bresennol neu'n derbyn papurau i gynnal cyfrinachedd unrhyw fusnes y maent yn bleidiol iddynt yn rhinwedd eu haelodaeth, presenoldeb, neu dderbyn papurau ar gyfer y Pwyllgor.
- 11.2 Ar brydiau oherwydd natur Hynod Gyfrinachol, gyfreithiol freintiedig a/neu bersonol materion sydd i'w trafod gan y Pwyllgor, bydd rhai eitemau'n cael eu penderfynu gan y Cadeirydd fel Busnes Neilltuedig. Ystyrir bod busnes neilltuedig yn Hynod Gyfrinachol ac yn cael ei drin felly gan bawb sy'n ymwneud ag ef.
- 11.3 Gall meysydd busnes neilltuedig gynnwys gwybodaeth hynod gyfrinachol sy'n ymwneud â:
- (i) materion sy'n ymwneud â diogelwch personol neu ddiogelwch unigolion y gellir eu hadnabod;
  - (ii) penodi, hyrwyddo, disgyblu a materion personol unrhyw weithiwr unigol yn y Brifysgol;

- (iii) derbyn, asesu academiaidd neu faterion personol unrhyw Fyfyriwr unigol o'r Brifysgol a disgyblu Myfyrwyr unigol;
  - (iv) materion sy'n ymwneud â gwendidau diogelwch a manylion diogelu seilwaith critigol, gwasanaethau, asedau a chyfleusterau;
  - (v) gwybodaeth a gyfyngir arni yn swyddogol gan y Llywodraeth neu gan gyrff statudol eraill; (vi) gwybodaeth fasnachol sensitif gan drydydd parti yn amodol ar ddyletswydd hyder.
- 11.4 Mae pob aelod o'r Cyngor, fel y corff llywodraethu (gan gynnwys myfyrwyr ac aelodau staff), yn rhannu'r un cyfrifoldebau a rhwymedigaethau cyfreithiol ag aelodau eraill, felly ni fydd unrhyw aelodau o'r Cyngor yn cael ei atal o drafodaethau am Fusnes Neilltuedig.
- 11.5 Yn achos Pwyllgorau eraill gall y Cadeirydd ystyried a ddylid gofyn i unrhyw aelodau dynnu yn ôl o Fusnes Neilltuedig, yn dibynnu ar natur yr wybodaeth sydd i'w thrafod. Bydd y Cadeirydd yn ystyried egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth, hygyrchedd, cyfranogiad a chanlyniadau teg i bawb wrth benderfynu ar yr angen i beidio a chynnwys unrhyw aelodau.
- 11.6 Os yw'n ofynnol i'r Pwyllgor benderfynu ar Fusnes Neilltuedig y mae rhai aelodau wedi cael eu heithrio ohono, bydd y Cadeirydd yn sicrhau bod yr egwyddor o onestrwydd yn cael ei fodloni ac y cynhelir gwerthoedd tryloywder ac atebolrwydd.
- 11.7 Ni fydd Busnes Neilltuedig yn cael ei gofnodi'n fanwl yn y Cofnodion, ond bydd cofnod o unrhyw benderfyniadau a wneir yn y copi llawn o'r Cofnodion, i'r graddau fod modd heb dorri cyfrinachedd neu beryglu diogelwch unrhyw berson neu ased. Bydd y Cofnodion yn cofnodi pa aelodau y gofynnwyd iddynt dynnu'n ôl, os o gwbl, ar gyfer y Busnes Neilltuedig.

## **12. Cofnodion ac Adroddiadau**

- 12.1 Dyletswydd Ysgrifennydd Pwyllgor fydd paratoi Cofnodion neu Adroddiadau'r Pwyllgor hwnnw. Y Cofnodion fydd y cofnod awdurdodol o drafodion y Pwyllgor a bydd yn manylu ar Benderfyniadau a phenderfyniadau'r Pwyllgor hwnnw.
- 12.2 Bydd Cofnodion pob cyfarfod yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd pan fydd y Pwyllgor yn cytuno arnynt.
- 12.3 Bydd y Cofnodion, ac eithrio unrhyw Gofnodion cyfrinachol neu Gopiâu Ffeil, ar gael yn unol â [Pholisi Cyhoeddi](#) Cofnodion a Phapurau Pwyllgorau.
- 12.4 Cofnodion ac Adroddiadau Is-bwyllgorau
- .1 Bydd Pwyllgor yn penderfynu a yw ei Is-Bwyllgor am gyflwyno iddo Gofnodion llawn achos yr Is-Bwyllgor, neu adroddiad.
  - .2 Er mwyn sicrhau adrodd amserol, gellir cyflwyno Cofnodion heb eu cadarnhau a gall y cyflwynydd dynnu sylw'r Pwyllgor at unrhyw wallau, neu at ddiwygiadau y cytunwyd arnynt wedi hynny nad ydynt wedi'u cywiro eto, na'u hymgorffori.

- .3 Bydd cofnodion ac Adroddiadau Is-Bwyllgorau yn cael eu cyflwyno i'r Rhiant Bwyllgor gan Gadeirydd yr Is-bwyllgor perthnasol, neu yn absenoldeb y Cadeirydd gan unrhyw aelod o'r Is-Bwyllgor sy'n bresennol, fel arall gan Gadeirydd y Rhiant Bwyllgor.

### **13. Dirprwyaethau**

- 13.1 Bydd dirprwyaethau sy'n dymuno cael eu derbyn gan Bwyllgor yn cyflwyno memorandwm yn ysgrifenedig i Ysgrifennydd y Pwyllgor a fydd yn ei ddwyn i sylw'r Cadeirydd. Gall y Cadeirydd ganiatáu i'r Pwyllgor dderbyn y Ddirprwyaeth, cyfeirio'r memorandwm at Banel sydd heb fod yn llai na thri aelod i'w hystyried a'i adrodd yn fanwl, efallai y bydd angen i Is-Bwyllgor dderbyn y Ddirprwyaeth weithredu ar ran y Pwyllgor. Yn achos dirprwyaeth i'r Cyngor, mae'n rhaid i'r Panel a benodir fod â mwyafrif o aelodau llebyg (annibynnol).
- 13.2 Ni fydd mewn na thri pherson mewn dirprwyaeth a dim ond un aelod ohoni fydd â'r rhyddid i annerch y Pwyllgor (ac eithrio wrth ateb cwestiynau gan aelodau'r Pwyllgor). Ni fydd y mater a gyflwynwyd gan y Ddirprwyaeth yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor nes bod y Ddirprwyaeth wedi gadael.
- 13.3 Bydd penderfyniad y Pwyllgor yn cael ei gyfleu i'r Ddirprwyaeth yn ysgrifenedig gan Ysgrifennydd y Pwyllgor.

### **14. Eitemau o flaen y Cyfarfod - Cynigion**

- 14.1 Gall Cynnig gael ei gyflwyno gan aelod o'r Pwyllgor ar yr amod ei fod yn cael ei eilio gan aelod arall o'r Pwyllgor a lle mae'r mater o fewn pwerau'r Pwyllgor.
- 14.2 Fel arfer, dylid rhoi hysbysiad o Gynnig i'r Ysgrifennydd cyn y cyfarfod, gyda digon o amser i'w restru ar yr Agenda, a'i ddsbarthu gyda'r papurau.
- 14.3 Bydd unrhyw Gynnig a gyflwynir yn y cyfarfod ac na fydd yn cael ei eilio yn darfod ar unwaith, ac ni fydd yn cael ei drafod ymhellach yn y cyfarfod hwnnw.
- 14.4 Gall y Cadeirydd gyflwyno Cynnig heb rybudd a heb gael ei eilio a bydd yn dod yn Gynnig gerbron y Pwyllgor.
- 14.5 Bydd Cynnig a gymeradwyir yn ffurfiol gan Bwyllgor yn dod yn Benderfyniad gan y Pwyllgor hwnnw ar unwaith.
- 14.6 Ni fydd unrhyw Gynnig i ddiddymu unrhyw Benderfyniad a basiwyd o fewn y chwe mis blaenorol yn cael ei roi i'r Pwyllgor.
- 14.7 Ni fydd unrhyw Gynnig nad yw'n cael ei basio, na'i waredu gan y Pwyllgor, yn agored i unrhyw aelod i gyflwyno Cynnig tebyg o fewn cyfnod pellach o chwe mis.

### **15. Pleidleisio mewn cyfarfodydd**

- 15.1 Rhoddir eitem i bleidlais naill ai:
- .1 pan ofynnir yn benodol am hyn gan aelod; neu
- .2 pan nad oes consensws clir gan yr aelodau ar eitem y mae angen penderfynu arni (gan gynnwys Cynnig).

- 15.2 Bydd gofyn mwyafrif syml o aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol i ennill pleidlais, ac eithrio os nodir yn wahanol. Bydd pleidleisio yn digwydd drwy godi dwylo neu unrhyw ddull arall sy'n galluogi pleidlais pob aelod i fod yn weladwy i bawb sy'n bresennol ac sy'n atal aelodau rhag pleidleisio fwy nag unwaith. Gellir cynnal pleidlais gudd yn hytrach pan fo mwyafrif absoliwt o'r aelodau wedi galw am hynny.
- 15.3 Bernir bod aelodau wedi ymatal rhag pleidlais os nad ydynt yn pleidleisio o blaid nac yn erbyn Cynnig neu benderfyniad.
- 15.4 Yn achos cydraddoldeb pleidleisiau bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw, ond ni fydd yn gorfod arfer y bleidlais fwrw hon. Pan fydd y Cadeirydd yn gwrthod hynny i bleidleisio datgenir bod y Cynnig neu'r penderfyniad "heb ei basio".
- 15.5 Pan fydd pob aelod yn pleidleisio dros Gynnig neu benderfyniad bydd yn cael ei basio "yn unfrydol".
- 15.6 Bydd cynnig neu benderfyniad a wneir gan bleidleisiau dwy ran o dair neu fwy o'r aelodau sy'n bresennol yn cael ei basio gan fwyafrif absoliwt.
- 15.7 Bydd cynnig neu benderfyniad sy'n cael eu pasio gan bleidleisiau llai na dwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol yn cael ei basio gan "Fwyafrif Syml".

## **16. Rheolau Dadlau**

- 16.1 Wrth siarad, bydd aelod neu Swyddog o'r Pwyllgor yn annerch y Cadeirydd. Bydd aelodau'n cadw at yr amseriadau ar gyfer busnes a ddarperir ar yr agenda a/neu unrhyw arweiniad/cyfarwyddiadau gan y Cadeirydd mewn perthynas â'r amser sydd ar gael.
- 16.2 Bydd aelod yn nodi'r awydd neu'r bwriad i siarad drwy godi llaw. Bydd y Cadeirydd yn penderfynu ar y drefn y bydd yr aelodau'n siarad ynddi.
- 16.3 Bydd y Cadeirydd yn rhoi arwydd pan fydd digon o drafod wedi bod ar y mater, yn egluro camau neu benderfyniad y Pwyllgor a/neu'n roi'r eitem i bleidlais, os bydd angen.

## **17. Ymddygiad Afreolus ac Atal Eistedd**

- 17.1 Os bydd unrhyw aelod o'r Pwyllgor yn diystyru dyfarniadau'r Cadeirydd yn gyson neu'n ymddwyn yn afreolaidd, yn amhriodol, yn sarhaus, neu'n rhwystro busnes y Pwyllgor yn fwriadol, efallai y bydd y Cadeirydd yn gofyn i'r aelod adael y cyfarfod.
- 17.2 Os bydd dibenion busnes mewn modd priodol a threfnus yn amhosibl, gall y Cadeirydd benderfynu gohirio, neu atal y Pwyllgor rhag eistedd am y cyfryw gyfnod ag y gellir ei ystyried yn hwylus.

## **18. Diddordeb Aelodau'r Pwyllgor mewn Contractau a Materion eraill**

- 18.1 Gofynnir i'r aelodau ddatgelu ar ddechrau pob cyfarfod unrhyw fuddiant ariannol neu fuddiant arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn unrhyw un o fusnesau'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod. Gofynnir i'r aelodau esgusodi eu hunain o'r cyfarfod ar gyfer eitemau busnes o'r fath a bydd hyn yn cael ei gofnodi yn y Cofnodion. Nid ystyrir bod aelod o unrhyw Bwyllgor â buddiant amhenodol na phersonol mewn materion sy'n cael eu trafod dim ond oherwydd eu bod yn aelod o staff neu'n fyfyrwr gyda'r Brifysgol.

18.2 Cofrestr Buddiannau

Bydd yr Ysgrifennydd i'r Cyngor yn cadw Cofrestr Buddiannau holl aelodau'r Cyngor, y Pwyllgor Archwilio a Risg a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol a bydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Brifysgol.

**19. Dirprwyo Dyletswyddau, a Phwerau a Swyddogaethau**

19.1 Caiff Pwyllgor ddirprwyo i Swyddogion y Brifysgol, i Is-Bwyllgorau, neu i bersonau eraill, unrhyw ddyletswyddau, pwerau a swyddogaethau y mae ef ei hun yn gymwys i'w cyflawni, yn unol â'r Cynllun Dirprwyo.

19.2 Bydd camau a gymerwyd wedi hynny gan swyddogion y Brifysgol, gan Is-Bwyllgorau neu gan y person a ddirprwywyd felly o fewn terfynau o'r fath yn cael eu hystyried yn weithred y Pwyllgor sydd wedi dirprwyo'r pwerau hynny.

## **ORDINHAD 4**

### **Y CYNGOR**

#### **1. Aelodaeth**

1.1 Bydd aelodau'r Cyngor fel a ganlyn:

- (1) Hyd at bymtheg o bobl lleyg a benodwyd gan y Cyngor, a bydd o leiaf un ohonynt yn cael ei benodi o'r GIG yng Nghymru, yn benodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro;
  - (2) y Llywydd a'r Is-Ganghellor (ex officio);
  - (3) y Dirprwy Is-Ganghellor (ex officio);
  - (4) Un Rhag Is-Ganghellor, Pennaeth y Coleg, a enwebwyd gan yr Is-Ganghellor [at ddibenion pennu cymhwysedd aelodau'r Senedd, cyfeirir at y Coleg hwn fel 'Coleg A'].
  - (5) Dau aelod o'r Senedd:
    - (i) Un Pennaeth Ysgol o 'Goleg B' a etholwyd gan y Senedd.
    - (ii) Un aelod o staff academiaidd o 'Goleg C' (ac eithrio'r rhai yn y Gwasanaethau Proffesiynol) a etholwyd gan y Senedd ac ohoni
  - (6) dau Fyfyriwr a ddewiswyd yn y modd a ragnodir gan Ordinhad;
  - (7) dau aelod o staff Gwasanaethau Proffesiynol nad ydynt yn aelodau o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol: a ddewiswyd yn y modd a ragnodir gan Ordinhad o'r categorïau canlynol:
    - (i) un aelod o staff y Gwasanaethau Proffesiynol graddau 1-4
    - (ii) un aelod o staff y Gwasanaethau Proffesiynol graddau 5 ac yn uwch
- 1.2 Wrth benodi aelodau lleyg, cynghorir y Cyngor gan yr Is-bwyllgor Enwebiadau a fydd wedi rhoi sylw i gydbwysedd aelodaeth ar y Cyngor ac anghenion y Brifysgol; gan ystyried yr angen i gadw cydbwysedd priodol o sgiliau ac arbenigedd ac amrywiaeth yr aelodau.
- 1.3 Fel arfer, bydd y Rhag Is-Ganghellor, Pennaeth yr Ysgol ac aelodau'r Senedd yn cael eu penodi neu eu hethol, yn unol ag 1 (4) ac 1 (5), o Goleg gwahanol bob tair blynedd ar sail gylchdro.

#### **2. Penodi'r Gadair a'r Is-gadeirydd**

- 2.1 Bydd Cadeirydd a fydd yn cael ei benodi gan y Cyngor. Bydd y Cadeirydd yn benodiad lleyg a gellir ei ddewis drwy gystadleuaeth allanol.
- 2.2 Bydd cyfnod swydd Cadeirydd y Cyngor yn cael ei benderfynu gan y Cyngor hyd at uchafswm o bedair blynedd. Bydd y Cadeirydd yn gymwys i gael ei ail-benodi am ail gyfnod yn olynol, a gellir ei ail-benodi am drydydd cyfnod yn olynol mewn amgylchiadau eithriadol ar yr amod nad yw cyfanswm nifer y blynyddoedd y mae wedi bod yn Gadeirydd yn mynd yn uwch na naw.
- 2.3 Mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Cyngor benderfynu bod newid i'r cyfnod yn y swydd y cytunwyd arno (yn amodol ar ddarpariaethau 2.2 uchod) er budd gorau'r Brifysgol a bydd yn ystyried barn y Cadeirydd wrth gymeradwyo hyd diwygiedig.
- 2.4 Bydd Is-gadeirydd a fydd yn cael ei benodi gan y Cyngor o blith aelodau lleyg y Cyngor.

- 2.5 Bydd yr Is-gadeirydd yn meddu ar y swydd yn unol â'u cyfnod yn y swydd fel aelod lleyg. Bydd yr Is-gadeirydd yn gymwys i gael ei ailbenodi'n Is-gadeirydd, ar yr amod nad yw'r cyfanswm o flynyddoedd fel aelod lleyg yn uwch na naw.
- 2.6 Gellir ymestyn cyfnod yr Is-gadeirydd i roi parhad i benodi Cadeirydd newydd, ar yr amod nad yw'r cyfanswm o flynyddoedd fel aelod lleyg yn fwy na naw.

### **3. Cyfnod y Swydd**

- 3.1 Fel arfer, bydd aelod lleyg o'r Cyngor yn y swydd am hyd at bedair blynedd.
- 3.2 Bydd aelod ex-officio o'r Cyngor yn aelod o'r Cyngor cyhyd ag y bydd yr aelod hwnnw'n parhau i fod yn y swydd neu'r safle gymhwyso.
- 3.3 Ni chaiff penodiadau'r Rhag Is-Ganghellor, Pennaeth y Coleg a dau gynrychiolydd y Senedd fod yn hwy na thair blynedd. Os bydd rôl y Rhag Is-Ganghellor, Pennaeth y Coleg neu Bennaeth yr Ysgol yn dod i ben, bydd swydd wag achlysurol a fydd fel arfer yn cael ei llenwi gan olynydd perthnasol.
- 3.4 Bydd aelod etholedig o'r Cyngor yn y swydd am hyd at dair blynedd. Os nad yw'r aelod yn gymwys i fod yn aelod mwyach, bydd swydd wag achlysurol.
- 3.5 Fel arfer, bydd aelod o'r Cyngor sy'n Fyfyriwr yn y swydd am flwyddyn, ar yr amod os bydd aelod o'r fath yn rhoi'r gorau i fod yn Fyfyriwr yn ystod cyfnod swydd yr aelod hwnnw, bydd swydd wag achlysurol.
- 3.6. Bydd unrhyw aelod arall o'r Cyngor yn y swydd am hyd at dair blynedd.
- 3.7 Fel rheol ni fydd unrhyw aelod yn gwasanaethu mwy na dau dymor yn olynol yn y swydd neu gyda chyfiawnhad eithriadol, cyfanswm o ddeng mlynedd ar y mwyaf. Gellir enwebu a phenodi aelod sy'n gadael yn Gadeirydd y Cyngor ar yr amod na fyddai hyd cyffredinol ei dymor yn fwy na'r uchafswm uchod.

### **4. Dileu aelodau'r Cyngor**

- 4.1 Gellir gwneud cais i Gadeirydd y Cyngor i dynnu aelod oddi ar aelod o'r Cyngor am reswm da yn unol â'r drefn a ddisgrifir isod:
- (1) mae'n rhaid i gais gael ei wneud gan o leiaf dau aelod o'r Cyngor, gan roi'r rhesymau dros eu symud.
  - (2) os bydd y Cadeirydd yn penderfynu bod yna achos prima facie, bydd Panel yn cael ei sefydlu, sy'n cynnwys tri aelod lleyg o'r Cyngor ac fel arfer bydd yn cael ei gadeirio gan yr Is-gadeirydd. Os mai'r Is-gadeirydd yw testun y cais, bydd y Cadeirydd yn penodi aelod lleyg arall i weithredu fel Cadeirydd.
  - (3) bydd y Panel yn derbyn sylwadau gan yr aelodau sy'n cyflwyno'r cais a chan yr aelod sy'n destun y cais.
  - (4) Bydd y Panel yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor ynghylch a ddylid cynnal y cais neu ei wrthod.
  - (5) Bydd y mater yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Cyngor o dan 'Fusnes Neilltuedig'.



- 4.2 Gall seiliau dros gael gwared am reswm da gynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ymddygiad amhriodol, amhriodoldeb ariannol, torri cyfrinachedd, methu â mynychu cyfarfodydd, afiechyd neu analluogrwydd.
- 4.3 Os yw'r cais i gael gwared ar aelodaeth yn ymwneud â Chadeirydd y Cyngor, dylai'r mater gael ei gyfeirio at yr Is-gadeirydd.

## **5. Etholiadau i Gyngor Aelodau'r Senedd neu Weithwyr y Brifysgol**

- 5.1 Bydd etholiadau i Gyngor aelodau'r Senedd a Gweithwyr y Brifysgol yn cael eu trefnu yn unol â'r darpariaethau a osodir yn Ordinhad 11 - Rheolau Sefydlog.
- 5.2 Bydd enwebiadau ar gyfer aelod y Senedd o fewn y categori Pennaeth Ysgol ar sail optio allan (h.y. bydd pob Pennaeth Ysgol yn cael ei enwebu'n awtomatig oni bai y gofynnir iddynt gael eu dileu).

## **6. Dethol Myfyrwyr i'r Cyngor**

- 6.1 Bydd Undeb y Myfyrwyr yn penodi dau fyfyrwr yn flynyddol i'r Cyngor, a hwythau yn fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol, a gallant fod yn Swyddogion Etholedig neu'n Swyddogion Anetholedig Undeb y Myfyrwyr. Un o aelodau'r myfyrwyr fydd Llywydd Undeb y Myfyrwyr.

## **7. Cyfarfodydd**

- 7.1. Bydd y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Cyngor yn naw aelod neu'r fath nifer uwch ag y gellir ei ragnodi gan Reolau Sefydlog.
- 7.2. Bydd gan y Cadeirydd bleidlais wreiddiol a phleidlais bwrw.

## **ORDINHAD 5**

### **Y SENEDD**

#### **1. Aelodaeth**

Bydd y Senedd yn cynnwys y personau canlynol:

- (1) y Llywydd a'r Is-Ganghellor, a fydd yn Gadeirydd;
- (2) y Dirprwy Is-Ganghellor a'r Rhag Is-Gangellorion;
- (3) Penaethiaid yr holl Ysgolion;
- (4) Cyfarwyddwr Addysg Barhaus a Phroffesiynol;
- (5) Cyfarwyddwr Llyfrgelloedd Prifysgol a Llyfrgellydd y Brifysgol
- (6) y Cyfarwyddwr Rhaglenni Saesneg
- (7) Cyfarwyddwr Academi Dysgu ac Addysgu Caerdydd
- (8) Pymtheg o athrawon a etholwyd gan ac o blith Athrawon y Brifysgol;
- (9) pum aelod ar hugain a etholwyd gan ac o blith Staff Academaidd yr Ysgolion neu'r Colegau:
- (10) pum aelod a etholwyd gan ac o blith Staff Academaidd y Gwasanaethau Proffesiynol:
- (11) saith Myfyriwr, wedi'u hethol gan ac o blith myfyrwyr y Brifysgol;
- (12) Aelodau Cyfetholedig. Os yw'r Senedd yn penderfynu hynny, ni chaiff mwy na deg aelod eu penodi drwy gael eu cyfethol.

#### **2. Cyfnod y Swydd**

- 2.1 Bydd aelodau etholedig y Senedd, ac eithrio aelodau'r Myfyrwyr, yn y swydd am dair blynedd oni bai bod yr aelod yn peidio â bod yn gymwys i fod yn aelod, ac os felly bydd swydd wag achlysurol. Byddant yn gymwys i gael eu hailethol.
- 2.2 Mae aelodau ex-officio yn y swydd cyhyd ag y maent yn parhau yn y swydd sydd wedi arwain at eu derbyn fel aelodau.
- 2.3 Bydd aelodau myfyrwyr y Senedd yn y swydd am flwyddyn o 1 Gorffennaf ymlaen. Byddant yn gymwys i gael eu hailethol.
- 2.4 Bydd yr aelodau cyfetholedig yn y swydd am dair blynedd neu'r fath gyfnod byrrach ag y bydd y Senedd yn ei benderfynu a bydd yn gymwys i gael eu hailbenodi.
- 2.5 Bydd aelod a benodir neu a etholwyd i lenwi swydd wag achlysurol yn y swydd am weddill y cyfnod y byddai ei ragflaenydd wedi dal ei swydd ar ei gyfer.

#### **3. Ethol Athrawon**

3.1 Bydd Ysgrifennydd y Senedd yn trefnu ethol pymtheg aelod o staff athrawol y Brifysgol i'r Senedd.

3.2 Dim ond un cynrychiolydd a ganiateir o unrhyw Ysgol.

#### **4. Ethol Staff Academaidd Ysgolion y Brifysgol**

4.1 Bydd Ysgrifennydd y Senedd yn trefnu i ethol pum aelod ar hugain o staff academaidd Ysgolion a Cholegau'r Brifysgol i'r Senedd.

4.2 Nid yw aelodau o'r broffeswriaeth yn gymwys i gael eu penodi yn y categori hwn.

4.3 Dim ond dau gynrychiolydd a ganiateir o unrhyw Ysgol.

#### **5. Ethol Staff Academaidd Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol**

5.1 Bydd Ysgrifennydd y Senedd yn trefnu ethol pum aelod a etholir gan ac o blith staff academaidd y Gwasanaethau Proffesiynol.

5.2 Dim ond un cynrychiolydd a ganiateir o bob Cyfarwyddiaeth.

#### **6. Ethol Myfyrwyr i'r Senedd**

6.1 Bydd Undeb y Myfyrwyr yn trefnu i ethol saith aelod o fyfyrwyr i'r Senedd ac yn unol â'r darpariaethau a nodir isod.

6.2 Mae'n rhaid i'r saith myfyriwr fod yn fyfyrwyr cofrestredig y Brifysgol a gallant fod yn swyddogion Etholedig neu anetholedig Undeb y Myfyrwyr a byddant yn cynnwys:

- (1) y ddau fyfyriwr a etholwyd gan Undeb y Myfyrwyr i fod yn aelodau o'r Cyngor a fydd yn aelodau o'r Senedd;
- (2) pum myfyriwr, ar yr amod na ellir eithrio unrhyw fyfyriwr rhag cael ei enwebu ar y sail eu bod wedi arfer eu hawl i optio allan o aelodaeth Undeb y Myfyrwyr, a dylai o leiaf un ohonynt fod yn fyfyriwr israddedig ac un yn fyfyriwr ôl-raddedig.

#### **7. Cyfarfodydd**

7.1 Yn absenoldeb y Llywydd a'r Is-Ganghellor, bydd y Dirprwy Is-Ganghellor neu'r Rhag Is-Ganghellor yn Gadeirydd yn y cyfarfod hwnnw o'r Senedd;

7.2 Bydd gan y Cadeirydd bleidlais wreiddiol a phleidlais bwrw;

7.3 Bydd y cworwm ar gyfer cyfarfod o'r Senedd yn ugain aelod.

#### **8. Swyddogaethau, pwerau a chyfrifoldebau**

8.1 Yn amodol ar ddarpariaethau'r Siarter a'r Statudau ynghylch dyletswyddau'r Cyngor, bydd y Senedd yn gyfrifol am yr holl faterion sydd â goblygiadau academaidd, a materion ynghylch profiad myfyrwyr, a fydd yn cynnwys:

- (1) argymhell i'r Cyngor gyrsiau sy'n arwain at raddau, diplomâu, tystysgrifau a rhagoriaethau eraill a allai fod yn sylweddol, yn ddeuol, ar y cyd neu fel arall o Brifysgol Caerdydd a chynlluniau a ddarperir ar ran cyrff proffesiynol eraill;

- (2) cyfrifoldeb dros:
- (i) addysgu mewnol ac allanol;
  - (ii) hybu a goruchwyllo ymchwil;
  - (iii) arholiadau Prifysgol Caerdydd;
  - (iv) monitro cynnwys, ansawdd a safon cyrsiau astudio ac ymchwil, gan ystyried rheoliadau academiaidd Prifysgol Caerdydd a gofynion cyrff proffesiynol ac allanol eraill;
  - (v) derbyn Myfyrwyr;
  - (vi) disgyblu Myfyrwyr;
  - (vii) gwahardd myfyrwyr Prifysgol Caerdydd am fethu â dilyn astudiaethau'n ddiwyd neu fethu gwneud cynnydd academiaidd boddhaol.

8.2 Yn ddarostyngedig i'r Siarter ac i'r Statudau hyn, bydd gan y Senedd yr holl bwerau angenrheidiol ar gyfer cyflawni ei chyfrifoldebau o dan y Siarter a'r Statudau hyn.

8.3 Bydd gan y Senedd y pŵer i wneud Rheoliadau mewn perthynas ag unrhyw fater y mae'n gyfrifol amdano, gan gynnwys Rheoliadau ar gyfer:

- (1) defnyddio'r cyfleusterau a'r llety a ddarperir gan Brifysgol Caerdydd;
- (2) gwaith allanol Prifysgol Caerdydd;
- (3) yn ddarostyngedig i delerau'r ymddiriedolaeth (os oes un), telerau dyfarnu efrydiaethau, ysgoloriaethau, arddangosfeydd, bwrsariaethau, gwobrau a chymhorthion eraill i astudio ac ymchwilio.
- (4) disgyblu myfyrwyr a phersonau eraill sy'n astudio ym Mhrifysgol Caerdydd neu sy'n ymgeiswyr mewn arholiad i'w gynnal ym Mhrifysgol Caerdydd neu o dan ei nawdd, a bydd Rheoliadau o'r fath yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:
  - (i) rheolau disgyblu;
  - (ii) yn amodol ar reolau cyfiawnder naturiol, y drefn sydd i'w dilyn pan honnir torri disgyblaeth;
  - (iii) cosbi torri disgyblaeth drwy ddiarddel o Brifysgol Caerdydd, yn barhaol neu dros dro, drwy wahardd ohoni neu unrhyw ran o Brifysgol Caerdydd a'i chyffiniau ac adeiladau eraill y mae Prifysgol Caerdydd yn perchen arnynt neu yn eu meddiannu, yn barhaol neu dros dro, drwy ddirwy neu fel arall;
  - (iv) apeliadau.

8.4 Yn ddarostyngedig i awdurdod y Cyngor, bydd y Senedd yn penderfynu ar wobrau a fydd yn cael eu rhoi yn y modd a bennir gan y Cyngor, mewn perthynas â:

- (1) Graddau Prifysgol Caerdydd, diplomâu, tystysgrifau a rhagoriaethau tebyg, a allai fod yn sylweddol, yn ddeuol, yn gydradd neu fel arall;
- (2) lle i fyfyrwyr, ysgoloriaethau, arddangosfeydd, bwrsariaethau, gwobrau, a chymhorthion eraill astudio ac ymchwilio.

8.5 Yn ddarostyngedig i awdurdod y Cyngor, bydd y Senedd yn rheoleiddio ac yn cynnal arholiadau sy'n arwain at raddau a dyfarniadau neu ragoriaethau eraill Prifysgol Caerdydd ac yn penodi arholwyr mewnol ac allanol felly, a bydd yn rheoleiddio ac yn cynnal arholiadau sy'n arwain at raddau a dyfarniadau neu wahaniaethau eraill cyrff eraill gyda chytundeb y cyrff hynny.

8.6 Bydd y Senedd yn cynghori'r Cyngor ar roi teitlau academaidd ar bersonau priodol ac yn unol â'r Ordinhadau neu â'r Rheoliadau eraill.

8.7 Caiff y Senedd

- (1) gymeradwyo, gyda neu heb ddiwygio, cyfeirio'n ôl neu wrthod unrhyw argymhelliad o Ysgol neu gorff neu berson arall ac, ar faterion o fewn pwerau'r Senedd, rhoi cyfarwyddiadau i Ysgol neu gorff neu i berson arall;
- (2) gofyn i Bennaeth Ysgol neu uned academaidd arall am wybodaeth am yr Ysgol neu am uned academaidd arall;
- (3) gwneud unrhyw argymhelliad i'r Cyngor o ran gwaith Prifysgol Caerdydd;
- (4) adrodd i'r Cyngor ar unrhyw fater ynglŷn â gwaith Prifysgol Caerdydd;
- (5) gwneud unrhyw weithred neu beth a awdurdodwyd gan y Cyngor.

8.8 Bydd y Senedd:

- (1) o bryd i'w gilydd yn adolygu dyletswyddau ac amodau penodi a gwasanaethu aelodau o'r Staff Academaidd a gwneud argymhellion arnynt i'r Cyngor;
- (2) cynghori'r Cyngor ar benodi aelodau'r Staff Academaidd ac, yn amodol ar y Statudau hyn, ar gael gwared ar aelodau o'r Staff Academaidd;
- (3) gwneud argymhellion i'r Cyngor ar faterion y cyfeirir i'r Senedd gan y Cyngor;
- (4) adrodd i'r Cyngor ar ei benderfyniadau ar faterion a allai fod yn berthnasol i drafodaethau'r Cyngor.

## **ORDINHAD 6**

### **CANGHELLOR A RHAG-GANGELLORION**

#### **1. Rôl y Canghellor a'r Rhag-Gangellorion**

##### **1.1 Bydd y Canghellor yn:**

- (1) cael rôl seremonïol mewn seremonïau graddio ac mewn seremonïau eraill;
- (2) yn gweithredu fel llysgennad i'r Brifysgol

##### **1.2 Bydd y Rhag-gangellorion yn:**

- (1) dirprwyo ar gyfer y Canghellor os bydd angen;
- (2) yn gweithredu fel llysgenhadon i'r Brifysgol.

#### **2. Penodi'r Canghellor a'r Rhag gangellorion**

2.1 Bydd y Canghellor yn cael ei benodi gan y Cyngor a bydd yn y swydd am dair blynedd neu'r fath gyfnod byrrach ag y bydd y Cyngor yn penderfynu arno a bydd yn gymwys i gael ei ailbenodi, ond ni fydd Canghellor sy'n gadael y swydd honno ar ôl bod ynddi am ddau gyfnod yn olynol yn gymwys i gael ei ailbenodi ar unwaith.

2.2 Bydd y Cyngor yn penodi Rhag gangellorion a bydd yn y swydd am dair blynedd neu'r fath gyfnod byrrach ag y bydd y Cyngor yn penderfynu arno. Byddant yn gymwys i gael eu hailbenodi, ond ni fydd Rhag Ganghellor sy'n mynd allan o'r swydd honno ar ôl bod ynddi am ddau gyfnod yn olynol yn gymwys i gael ei ailbenodi ar unwaith.

#### **3. Gweithdrefn ar gyfer penodi Canghellor**

3.1 Os bydd swydd wag neu swydd wag sydd ar y gorwel yn swyddfa'r Canghellor, bydd yr Is-bwyllgor Enwebiadau yn ceisio enwebiadau ar gyfer y rôl fel y mae'n penderfynu, yn ymgynghori â'r Is-Ganghellor, ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor fel y mae'n gweld yn dda.

3.2 Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn ysgrifennydd i'r Is-bwyllgor Enwebiadau i benodi Canghellor.

#### **4. Gweithdrefn ar gyfer penodi Rhag Ganghellor**

4.1 Bydd y Rhag Gangellorion yn cael eu penodi gan y Cyngor ar enwebiad y Llywydd a'r Is-Ganghellor, ar ôl ymgynghori â'r Canghellor.

## **ORDINHAD 7**

### **GWEITHDREFN AR GYFER PENODI LLYWYDD AC IS-GANGHELLOR**

#### **1. Gweithdrefn ar gyfer penodi Llywydd ac Is-Ganghellor**

- 1.1 Os bydd swydd wag neu swydd wag sydd ar y gorwel yn swyddfa'r Llywydd ac Is-Ganghellor bydd Cyd-bwyllgor o'r Cyngor a'r Senedd yn cael ei ffurfio sy'n cynnwys:
- (i) Cadeirydd y Cyngor a fydd yn y Gadair;
  - (ii) Pedwar person a benodir gan y Cyngor, a fydd yn cynnwys:
    - a. O leiaf dau aelod lleyg o'r Cyngor;
    - b. Un aelod allanol yn y swydd Is-Ganghellor, Profost neu rôl gyfatebol mewn sefydliad addysg uwch; a
    - c. Un person arall nad yw'n weithiwr nac yn fyfyrwr i'r Brifysgol.
  - (iii) Pedwar aelod o'r Senedd a benodwyd drwy etholiad y grwpiau canlynol:
    - d. Un aelod myfyriwr;
    - e. Un Pennaeth Ysgol;
    - f. Un Is-Ganghellor neu'r Dirprwy Is-Ganghellor;
    - g. Un aelod Senedd arall nad yw'n dod o fewn categorïau d-f.
- 1.2 Bydd y Cyd-bwyllgor drwy Adroddiad yn gwneud argymhellion o'r fath i'r Cyngor mewn perthynas â phenodi Llywydd ac Is-Ganghellor fel y bydd y Cyd-bwyllgor yn gweld yn dda.
- 1.3 Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn ysgrifennydd i'r Cyd-bwyllgor.
- 1.4 Bydd gan y Cyd-bwyllgor bŵer i bennu ei ddull gweithredu yng ngoleuni amgylchiadau sy'n bodoli ar y pryd.

#### **2. Penodi Llywydd ac Is-Ganghellor dros dro**

- 2.1 Os yw absenoldeb y Llywydd a'r Is-Ganghellor neu swydd wag yn swyddfa'r Llywydd a'r Is-Ganghellor yn debygol o ymestyn y tu hwnt i gyfnod o dri mis, gall y Cyngor benodi Llywydd ac Is-Ganghellor dros dro ar argymhelliad cyd-bwyllgor o'r Senedd a'r Cyngor a sefydlwyd at y diben hwn, gan gynnwys Cadeirydd y Cyngor, neu yn ei absenoldeb, yr Is-gadeirydd, un aelod lleyg a benodwyd gan y Cyngor a dau aelod a benodwyd gan y Senedd.
- 2.2 Bydd Llywydd dros dro ac Is-Ganghellor yn gweithredu naill ai tan y cyfryw amser wrth i'r deiliad swydd presennol ailddechrau ei ddyletswyddau, neu hyd nes y gwneir apwyntiad parhaol, neu am y fath gyfnod ag y gall y Cyngor ei benderfynu.
- 2.3 Os, ym marn Cadeirydd y Cyngor, bydd angen gweithredu ar frys ac mae ef/hi yn credu y gallai fod yn briodol penodi Llywydd ac Is-Ganghellor dros dro, gall Cadeirydd y Cyngor gymryd camau gweithredol yn unol â Rheol Sefydlog 4.3 i sefydlu'r Pwyllgor i benodi Llywydd ac Is-Ganghellor dros dro.

- 2.4 Bydd Ysgrifennydd y Cyngor yn ysgrifennydd i'r Cyd-bwyllgor.
- 2.5 Os na fydd Cadeirydd y Cyngor neu'r Is-gadeirydd yn gallu gwasanaethu ar y Pwyllgor, neu ar ôl ymddiswyddo o'r Pwyllgor, bydd aelod llewyg arall o'r Cyngor yn cael ei benodi i'r Pwyllgor.
- 2.6 Bydd unrhyw berson sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor hwn wedi nodi nad yw'n ymgeisydd ar gyfer y swydd. Os yn ystod y broses benodi mae aelod o'r Pwyllgor yn nodi y byddai'n dymuno cael ei ystyried, bydd yn ofynnol i'r aelod hwnnw ymddiswyddo o'r Pwyllgor a bydd rhywun yn cael ei benodi yn ei le.

### **3. Dirprwyo swyddogaethau**

Caiff y Llywydd a'r Is-Ganghellor ddirprwyo i'r Dirprwy Is-Ganghellor neu swyddog arall unrhyw swyddogaeth sydd fel arfer yn cael ei weithredu ganddo ef ei hun. Lle na fu dirprwyaeth benodol o swyddogaethau naill ai yn absenoldeb y Llywydd a'r Is-Ganghellor, neu yn ystod swydd wag yn swyddfa'r Llywydd a'r Is-Ganghellor, bydd swyddogaethau'r Llywydd a'r Is-Ganghellor yn cael eu cyflawni gan y Dirprwy Is-Ganghellor.



## **ORDINHAD 8**

### **PENODI DIRPRWY IS-GANGHELLOR A RHAG IS-GANGELLORION**

#### **1. Penodi Dirprwy Is-Ganghellor**

- 1.1 Bydd y Cyngor yn penodi Dirprwy Is-Ganghellor ar enwebiad yr Is-Ganghellor, ar ôl ymgynghori â'r Senedd. Gall yr Is-ganghellor benderfynu o dan rai amgylchiadau ymgymryd â phroses sy'n cynnwys hysbysebu allanol a recriwtio.
- 1.2 Penodir Dirprwy Is-Ganghellor am gyfnod o dair blynedd y gellir ei hadnewyddu. Bydd y penodiad yn amodol ar adolygiad awtomatig os penodir Is-ganghellor newydd.

#### **2. Penodi Rhag Is-Gangellorion**

- 2.1 Gall y Cyngor benodi uchafswm o chwech Rhag Is-Ganghellor.
- 2.2 Bydd y Senedd yn cael ei chynghori (drwy ohebiaeth os nad oes cyfarfod wedi'i drefnu) o swydd wag fel arweinydd academiaidd ar gyfer rôl y Rhag Is-Ganghellor a'u portffolio.
- 2.3 Bydd yr Is-Ganghellor yn ystyried unrhyw sylwadau ysgrifenedig a wneir gan Aelodau'r Senedd a allai helpu i lywio'r broses benodi.
- 2.4 Gall yr Is-ganghellor, o dan rai amgylchiadau, ymgymryd â phroses sy'n cynnwys hysbysebu a recriwtio allanol.
- 2.5 Yn dilyn proses recriwtio dryloyw, bydd yr Is-Ganghellor yn argymhell y penodiad i'r Cyngor i gael ei gymeradwyo.
- 2.6 Penodir y Rhag Is-Ganghellor am dair blynedd neu am ba gyfnod bynnag ac ar unrhyw delerau eraill y bydd y Cyngor yn penderfynu arnynt o bryd i'w gilydd. Gall yr Is-ganghellor adnewyddu'r penodiad, fel arfer, am un cyfnod arall am hyd at dair blynedd.
- 2.7 Bydd penodiadau yn amodol ar adolygiad awtomatig os penodir Is-ganghellor newydd.

## **ORDINHAD 9 CYRFF ACADEMAIDD**

### **1. Prif Gyrrff Academaidd**

- 1.1 Yn unol â'r Siarter a'r Statudau bydd prif gyrrff academaidd o'r fath ag y bydd y Cyngor yn penderfynu arno wedi ymgynghori â'r Senedd. Gall cyrrff academaidd israddol eraill gael eu sefydlu neu eu diddymu gan y Llywydd a'r Is-Ganghellor (a elwir wedi hyn yn Is-Ganghellor) yn unol ag unrhyw reoliad neu ganllawiau a gyhoeddir gan y Senedd neu gan y Cyngor o bryd i'w gilydd.

### **2. Y Colegau**

- 2.1 Bydd tri phrif gorff academaidd a elwir yn Golegau, sef:

- Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol
- Coleg Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd;
- Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg.

- 2.2 Gall y Cyngor eu sefydlu, eu diddymu neu eu newid ar argymhelliad yr Is-ganghellor, ar ôl ymgynghori â'r Senedd. Bydd pob Coleg yn cynnwys grŵp o Ysgolion fel y dangosir yn Atodiad A. Gall colegau hefyd gynnwys unedau academaidd eraill.

### **3. Penaethiaid y Coleg**

- 3.1 Bydd pob Coleg yn cael ei arwain gan Rag Is-Ganghellor a Phennaeth y Coleg a fydd yn gyfrifol ac yn atebol i'r Is-Ganghellor am reoli'r Coleg a bydd yn rheoli Penaethiaid yr Ysgolion a phenaethiaid cyrrff academaidd eraill o fewn y Coleg.

### **4. Byrddau Coleg**

- 4.1 Bydd gan bob Coleg Fwrdd Coleg a fydd yn gweithredu fel corff cynghori i Bennaeth y Coleg ac a fydd yn cynnwys Penaethiaid yr Ysgolion cyfansoddol, ynghyd â'r fath Ddeoniaid Colegau neu swyddogion eraill, fel y'u penodir o bryd i'w gilydd. Gellir penodi penaethiaid unedau academaidd eraill neu unigolion eraill hefyd i Fwrdd y Coleg yn ôl disgrisiwn Pennaeth y Coleg.

### **5. Cyfrifoldebau Penaethiaid y Coleg**

- 5.1 Bydd y Rhag Is-Ganghellor a Phennaeth y Coleg yn aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, a thrwy hynny, bydd gando/ganddi'r cyfrifoldebau cyffredinol canlynol:

- (1) chwarae rhan sylweddol, mewn cydweithrediad ag aelodau eraill o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, i ddatblygu a chyflawni strategaeth y Brifysgol;
- (2) arwain y Brifysgol mewn meysydd cyfrifoldeb a ddirprwyir iddo/iddi, gan gynnwys chwarae rôl weladwy o ran rhoi arweiniad corfforaethol ar y materion a bennir ac y cytunir arnynt gan yr Is-Ganghellor a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol;
- (3) hyrwyddo'r Brifysgol o ran addysgu, ymchwil, arloesedd ac ymgysylltu;
- (4) hyrwyddo buddiannau a gwerthoedd y Brifysgol yn fewnol ac yn allanol;

- (5) chwarae rhan amlwg wrth recriwtio a phenodi staff o'r radd flaenaf i'r Brifysgol;
- (6) annog datblygu staff er mwyn diwallu anghenion cyffredinol y Brifysgol yng nghyd-destun ei datblygiad;
- (7) annog a datblygu gweithgareddau rhyngddisgyblaethol rhwng yr holl Golegau ac Ysgolion;
- (8) cymryd cyfrifoldeb dros gadeirio Pwyllgorau'r Brifysgol yn ogystal â chwarae rhan mewn gweithgareddau seremonïol y Brifysgol, yn ôl yr angen, gan gynnwys seremonïau graddio;
- (9) annog a gwobrwyo ymchwil, rhagoriaeth academaidd a chyfranogiad colegol ledled y Brifysgol;
- (10) chwarae rhan amlwg ar Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, cynorthwyo'r Is-Ganghellor i gyflawni nodau'r Brifysgol fel y'u diffinnir yn ei Chynllun Strategol, a chyfrannu at gynlluniau'r Brifysgol a llunio polisiau a gweithdrefnau;
- (11) ymateb i faterion a digwyddiadau sy'n debygol o effeithio ar weithgareddau ac enw da'r Brifysgol mewn modd sy'n rheoli ac yn lleihau'r risg i'r Brifysgol;
- (12) sicrhau cydymffurfiad â'r holl ofynion fel y rhai sy'n ymwneud â materion iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a gofynion statudol neu reoleiddiol eraill;
- (13) cyfrannu at ddatblygu a phrofi cynlluniau rheoli argyfwng a risg y Brifysgol a ddefnyddir mewn argyfwng neu os ceir digwyddiadau difrifol annisgwyl;
- (14) hyrwyddo lles yr holl staff a'r myfyrwyr, gan feithrin diwylliant o barch ym mhob agwedd ar waith ac arwain, cefnogi a bod yn sensitif i anghenion gwahanol myfyrwyr beth bynnag fo'u lleoliad neu eu dull astudio;
- (15) hyrwyddo'r Brifysgol fel lle o fri rhyngwladol i astudio, ymchwilio a gweithio ynddo ac annog cyfnewid a chydweithio rhyngwladol;
- (16) meithrin cysylltiadau effeithiol a chynhyrchiol â'r rhai sydd â dylanwad o bwys ym meysydd llywodraeth, busnes a chyrrff proffesiynol;
- (17) mynd ati i hyrwyddo systemau a strwythurau traws-sefydliadol (boed yn ymwneud ag ymchwil/rhaglenni academaidd/materion portffolio neu weinyddiaeth);
- (18) cynrychioli'r Brifysgol fel sy'n ofynnol ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol; ac
- (19) ymgymryd â dyletswyddau eraill sy'n ofynnol gan yr Is-Ganghellor.

## **6. Penodi Penaethiaid Coleg**

- 6.1 Bydd y broses benodi ar gyfer Rhag Is-Ganghellor Pennaeth y Coleg yn dilyn y broses a amlinellir yn Ordinhad 8

## **7. Deoniaid y Brifysgol a'r Coleg**

Bydd gan bob Coleg y Deoniaid Coleg canlynol

- Deon Astudiaethau Israddedig y Coleg
- Deon Ymchwil ac Arloesedd
- Deon Gweithgarwch Rhyngwladol y Coleg
- Deon Astudiaethau Ôl-raddedig y Coleg

Yn ogystal, gall yr Is-Ganghellor greu nifer o swyddi Deon y Brifysgol.

## **8. Penodi Deoniaid y Coleg a'r Brifysgol**

- 8.1 Bydd Deoniaid y Coleg a'r Brifysgol yn cael eu penodi gan y Rhag Is-ganghellor (gangellorion) sy'n rheolwr llinell yn dilyn ymgynghoriad priodol a phroses ddethol fewnol dryloyw.
- 8.2 Gall y Rhag Is-Ganghellor (Rhag Is-Gangellorion) sy'n rheolwyr llinell benderfynu o dan rai amgylchiadau ymgymryd â phroses sy'n cynnwys hysbysebu a recriwtio allanol.
- 8.3 Bydd deoniaid yn cael eu penodi am gyfnod o hyd at dair blynedd a gallant gael eu hailbenodi gan y Rhag Is-Ganghellor (Rhag Is-Gangellorion) sy'n rheolwyr llinell fel arfer am un cyfnod arall o hyd at dair blynedd. Bydd pob penodiad yn cael ei adrodd i'r Senedd a'r Cyngor ar y cyfle cyntaf.

## **9. Ysgolion ac unedau academaidd eraill o fewn Colegau**

- 9.1 Gall yr Is-ganghellor sefydlu, diddymu neu fel arall ad-drefnu Ysgolion ac unedau academaidd eraill ar gais Pennaeth y Coleg perthnasol ac wedi ymgynghori gyda'r a'r Senedd. Pennaeth Ysgol fydd yn arwain pob Ysgol a fydd yn aelod o Fwrdd perthnasol y Coleg.

## **10. Cyfrifoldebau Penaethiaid yr Ysgol**

- 10.1 Bydd Penaethiaid yr Ysgol yn atebol i Bennaeth y Coleg am:

- (1) Aseinio dyletswyddau ymchwil, addysgu, gweinyddol ac eraill i staff Academaidd ac aelodau eraill o staff yr Ysgol;
- (2) Hyrwyddo datblygiad dysgu ac addysgu, gan gynnwys eu hansawdd a sut i'w gwella, ac draws yr ystod o ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â'r Ysgol ac Ysgolion eraill yn y Coleg;
- (3) Annog a hyrwyddo staff a myfyrwyr yr Ysgol i gwblhau gwaith ymchwil;
- (4) Annog a hyrwyddo arloesedd a throsglwyddo gwybodaeth fel y bo'n briodol yn yr Ysgol;
- (5) Gwneud trefniadau ar gyfer dewis myfyrwyr i'w derbyn;
- (6) Sicrhau cydymffurfiaeth yn yr Ysgol â rheoliadau'r Coleg/Prifysgol mewn perthynas â'r holl gyrff academaidd, cyflogaeth, ariannol, proffesiynol a

statudol, gan gynnwys yr holl ofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a materion eraill;

- (7) Datblygu cynlluniau a strategaethau priodol ar gyfer yr Ysgol i'w cymeradwyo gan y Coleg a'r Brifysgol a rheoli'r Ysgol i gyflawni'r amcanion a nodir drwy hynny;
- (8) Sicrhau, ar ran y Brifysgol, fod yr Ysgol yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau yn y gweithle o ran iechyd, diogelwch a lles staff a phersonau neu anifeiliaid eraill sydd yn yr Ysgol neu yr effeithir arnynt gan yr Ysgol ac ar gyfer safleoedd, offer a sylweddau yn yr Ysgol, gan gynnwys materion amgylcheddol;
- (9) Cysylltu, pan fo'n briodol, â'r holl gyrff proffesiynol perthnasol neu gyrff perthnasol eraill i sicrhau bod cymorth digonol ar gyfer ymchwil, addysgu a hyfforddiant;
- (10) Cynrychioli, neu drefnu cynrychiolaeth i'r Ysgol, yn yr holl gyrff perthnasol, o fewn y Brifysgol ac yn allanol;
- (11) Cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl gofyn Pennaeth y Coleg.

Pennaeth yr Ysgol fydd yn rheoli penaethiaid adrannau neu is-adrannau yn yr Ysgol. Disgwylir i Bennaeth yr Ysgol wneud cyfraniad sylweddol at bennu strategaeth a chyfeiriad yn y Coleg.

## **11. Penodi Penaethiaid Ysgol**

11.1 Gall yr Is-Ganghellor benodi Pennaeth Ysgol, ar argymhelliad Pennaeth y Coleg, naill ai:

- (1) o blith yr uwch Staff Academaidd ac yn dilyn ymgynghoriad o fewn yr Ysgol berthnasol, neu
- (2) drwy hysbysebu agored a recriwtio.

Bydd penaethiaid yr Ysgol yn cael eu penodi am gyfnod cychwynnol o hyd at bum mlynedd a gall hyn gael ei ymestyn gan un cyfnod arall o hyd at dair blynedd.

## **12. Cyrff Academaidd y Brifysgol**

12.1 Rhestrir y cyrff academaidd sydd wedi'u sefydlu ar lefel Prifysgol yn Atodiad B.

**ATODIAD A**

**YSGOLION O FEWN COLEGAU AC UNEDAU ACADEMAIDD ERAILL**

1. Bydd Colegau'r Brifysgol yn cynnwys yr Ysgolion canlynol:
  - 1.1 **Coleg y Celfyddydau, y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol:**
    - Ysgol Busnes Caerdydd
    - Ysgol Daearyddiaeth a Chynllunio Prifysgol Caerdydd
    - Ysgol Saesneg, Cyfathrebu ac Athroniaeth
    - Ysgol Hanes, Archaeoleg a Chrefydd Caerdydd
    - Ysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant
    - Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth Caerdydd
    - Ysgol Ieithoedd Modern Caerdydd
    - Ysgol Cerddoriaeth
    - Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd
    - Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd
  - 1.2 **Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd:**
    - Ysgol y Biowyddorau, Caerdydd
    - Ysgol Deintyddiaeth
    - Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd
    - Ysgol Meddygaeth
    - Ysgol Optometreg a Gwyddorau'r Golwg Caerdydd
    - Ysgol Fferylliaeth a Gwyddorau Fferyllol Caerdydd
    - Ysgol Seicoleg Caerdydd
  - 1.3 **Coleg y Gwyddorau Ffisegol a Pheirianeg:**
    - Ysgol Pensaernïaeth Cymru
    - Ysgol Cemeg Caerdydd
    - Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg Caerdydd
    - Ysgol Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd Caerdydd
    - Ysgol Peirianeg Caerdydd
    - Ysgol Mathemateg Caerdydd
    - Ysgol Ffiseg a Seryddiaeth Caerdydd.

Gall unedau academiaidd eraill fel canolfannau neu sefydliadau hefyd fod ynghlwm wrth Golegau neu Ysgolion.

**ATODIAD B:**

**CYRFF AR DRAWS Y BRIFYSGOL**

1. Unedau academaidd eraill a fydd yn gyrrff ar draws y Brifysgol yw:

1.1 Sefydliadau Arloesedd y Brifysgol (UII) – rhyngddisgyblaethol ar raddfa fawr, ac wedi'u halinio'n gryf â chryfderau ymchwil ac arloesedd mawr y Brifysgol. Bydd disgwyl i UIIs gyflwyno ceisiadau mawr ar raddfa, yn ogystal â gyrru gweithgareddau busnes a phartneriaeth strategol ar gyfer y Brifysgol, a gellir eu hadnewyddu yn seiliedig ar ganlyniadau cryf.

1.2 Sefydliad Ymchwil y Brifysgol (URIs) – cylch gwaith graddfa ganolig, yn bennaf yn ôl disgyblaeth, wedi'i alinio i feysydd lle mae gan Gaerdydd arbenigedd ymchwil cenedlaethol a rhyngwladol sylweddol. Bydd disgwyl i URIs ddarparu Canolfan Ragoriaeth proffil uchel a ariennir yn allanol ac ni fydd yn cael ei hadnewyddu y tu hwnt i un cyfnod.

1.3 Rhwydwaith Ymchwil y Brifysgol (URNs) – cyfnod cynnar a graddfa fach, gydag ymchwilwyr yn gweithio i ddatblygu rhwydweithiau rhyngddisgyblaethol cyfnod cynnar newydd, partneriaethau a chyfleoedd ariannu.

## **ORDINHAD 10**

### **PWYLLGORAU**

1. Fel y nodir yn y Siarter a Statud VII, mae gan y Cyngor y pŵer i sefydlu a rhyddhau Pwyllgorau ac i ddirprwyo pŵerau i'r Pwyllgorau hynny.
2. Fel y nodir yn Statud VIII, mae gan y Senedd y pŵer i sefydlu a rhyddhau Pwyllgorau a gall ymuno â'r Cyngor i wneud hynny. Gall y Senedd ddirprwyo pŵerau o fewn ei gylch gwaith ac yn unol â Siarter a Statudau, i Bwyllgorau o'r fath.
3. Bydd Cyfansoddiadau unrhyw Bwyllgorau (gan gynnwys Cynnwys, Cylch Gorchwyl, Cyfrifoldebau, Dyletswyddau, a Phwerau) a sefydlwyd gan y Cyngor a/neu'r Senedd:
  - 3.1. yn cael eu cymeradwyo drwy Benderfyniad y Rhiant Bwyllgor, ac
  - 3.2. yn cael eu adnabod fel Prif Bwyllgorau
  - 3.3. yn cael eu cyhoeddi yn y Fframwaith Llywodraethu.
4. Bydd Cyfansoddiadau unrhyw Bwyllgorau a sefydlwyd gan Prif Bwyllgorau yn cael eu cymeradwyo gan y rhiant-gorff a'u cyhoeddi yn y Fframwaith Llywodraethu, neu fel arall ar gael ar gais gan Swyddfa Ysgrifennydd y Brifysgol.
5. Bydd pob Cyfansoddiad Pwyllgor o'r fath yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y Rhiant Bwyllgor a bydd angen cymeradwyaeth gan y Rhiant Bwyllgor ar gyfer unrhyw ddiwygiad.
6. Yn unol â gofynion rheoliadau allanol, fel isafswm bydd y Pwyllgorau canlynol y Cyngor:
  - 6.1. Pwyllgor archwilio neu gyfwerth, a fydd yn gyfrifol am sicrhau'r corff llywodraethol ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd rheoli risg, rheoli a llywodraethu; economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a rheolaeth a sicrwydd ansawdd data a gyflwynir i reoleiddwyr statudol a chyrrff eraill megis yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch a'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr.
  - 6.2. Pwyllgor cyllid neu gyfwerth, a fydd yn cynghori'r Cyngor ar faterion ariannol y sefydliad.
7. Prif Bwyllgorau'r Cyngor yw:
  - Pwyllgor Archwilio a Risgiau
  - Pwyllgor Polisiâu ac Adnoddau
  - Pwyllgor Llywodraethu
  - Pwyllgor Taliadau
8. Prif Bwyllgorau'r Cyngor a'r Senedd yw:
  - Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd



- Pwyllgor Cymrodoriaethau a Graddau Er Anrhydedd
- Pwyllgor Dyfarniadau a Chynnydd y Brifysgol

9. Prif Bwyllgorau'r Senedd yw:

- Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd
- Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr

10. Is-bwyllgorau Prif Bwyllgorau'r Cyngor yw:

- Pwyllgor Safonau Biolegol
- Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol.
- Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant
- Is-Bwyllgor Buddsoddiadau a Bancio
- Is-bwyllgor Enwebiadau
- Pwyllgor Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored
- Pwyllgor Cyflogau Athrawon ac Uwch-Aelodau Staff

Sylwer: Mae cyfansoddiad a chylch gorchwyl Paneli Sefydlog ac Is-bwyllgorau nas cyhoeddwyd ar y wefan ar gael ar gais oddi wrth [Committees@caerdydd.ac.uk](mailto:Committees@caerdydd.ac.uk)

## **ORDINHAD 11**

### **YSGRIFENYDD Y BRIFYSGOL**

1. Bydd y Cyngor yn penodi Ysgrifennydd y Brifysgol, ar ôl ei enwebu gan yr Is-Ganghellor, a fydd yn Glerc i'r Cyngor.
2. Gall yr Is-Ganghellor ymgymryd â phroses sy'n cynnwys hysbysebu a recriwtio allanol, ac fe fydd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor neu rywun a enwebir ganddynt yn y broses ddethol.
3. Bydd yr Is-Ganghellor yn argymhell y penodiad i'r Cyngor er mwyn iddo gael ei gymeradwyo.
4. Yn rhinwedd ei swydd yn Glerc y Cyngor, bydd Ysgrifennydd y Brifysgol:
  - 4.1. yn atebol i'r corff llywodraethu am ddarparu cyngor gweithredol a chyfreithiol mewn perthynas â chydymffurfio ag offerynnau llywodraethu, gan gynnwys rheolau sefydlog;
  - 4.2. yn rhoi gwybod i'r Cyngor os byddai unrhyw gamau gweithredu arfaethedig yn mynd y tu hwnt i bwerau'r Cyngor neu'n groes i ddeddfwriaeth neu ofynion y Cyngor Cyllido neu reoleiddwyr eraill;
  - 4.3. yn cynghori'r Cyngor mewn perthynas ag adrodd unrhyw ddigwyddiadau difrifol ffurfiol i'r Comisiwn Elusennau a rheoleiddwyr eraill fel y bo'n briodol;
  - 4.4. yn rheoli Datgeliadau er Lles y Cyhoedd ar ran y Cyngor;
  - 4.5. yn tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud ag annibyniaeth neu wrthdaro i Gadeirydd y Cyngor;
  - 4.6. yn ofynnol iddo gynghori'r Cadeirydd ynghylch unrhyw faterion lle gall gwrthdaro, boed yn wirioneddol neu'n bosibl, ddigwydd rhwng y Cyngor a'r Is-Ganghellor;
  - 4.7. yn cael gwarchodaeth dros Sêl y Brifysgol a bod yn atebol am ei defnydd priodol;
  - 4.8. yn cadw Cofrestr Buddiannau aelodau'r Cyngor ac unrhyw unigolion eraill y mae'r Cyngor angen datganiad o fuddiannau ganddynt;
  - 4.9. gwneud datgeliad llawn ac amserol o fuddiannau personol yn y Gofrestr.
5. Mewn achos lle bydd swydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn cyfuno swyddogaeth y Clerc â swyddogaeth weinyddol neu reoli uwch yn y Brifysgol, bydd y Cyngor yn adolygu, o leiaf bob tair blynedd, a yw annibyniaeth swydd y Clerc mewn perygl o fod dan fygythiad.

## **ORDINHAD 12**

### **STAFF ACADEMAIDD**

#### **I DIFFINIAD O STAFF ACADEMAIDD**

1. Mae Statud 1 'Dehongli a Chyffredinol' 2 (1) yn darparu'r diffiniad canlynol o staff academaidd.

- (i) Ystyr 'Staff Academaidd' yw staff academaidd Prifysgol Caerdydd, a bydd yn cynnwys categorïau o'r fath weithwyr neu weithwyr unigol eraill y gallai'r Cyngor benderfynu arnynt o bryd i'w gilydd.

Yn ogystal mae Statud XV 'Staff Academaidd' 3 (1) yn darparu bod Y Statud hwn yn berthnasol i –

- (i) Athrawon, Darllenwyr, Uwch Ddarlithwyr a Darlithwyr; a staff ymchwil a chategorïau eraill o weithwyr neu weithwyr unigol eraill yn ôl penderfyniad y Cyngor o bryd i'w gilydd;
- (ii) y Llywydd a'r Is-Ganghellor, i'r graddau ac yn y modd sydd wedi'i nodi yn yr Atodiad i'r Statud.

2. Y Cyngor wedi penderfynu y bydd y term 'staff academaidd' hefyd yn cwmpasu'r canlynol:

- .1 y gweithwyr hynny a oedd naill ai â statws staff academaidd neu'n cael eu talu ar raddfeydd cyflog sy'n gysylltiedig â'r maes academaidd;
- .2 y gweithwyr hynny sy'n cael eu penodi ar ôl 1 Awst 2004 ac sy'n cael eu talu ar gontractau ar Raddau 5 ac uwch na graddfeydd cyflog y Brifysgol

#### **II CWYNIION A DISGYBLU**

##### **4. Rhagymadrodd**

4.1 Mae'r Ordinhad hwn yn nodi'r prosesau a ddilynnir fel arfer wrth ymdrin â chwynion yn erbyn staff a materion disgyblu, ac ar weithredu gweithdrefnau fel sy'n ofynnol yn unol â Statud XV (y Statud). Mae'r Statud yn gofyn y diffinnir gweithdrefnau trwy Ordinhad mewn perthynas â'r:

- (a) Weithdrefn sydd i'w dilyn mewn perthynas â pharatoi, clywed a phenderfynu ar gyhuddiadau gan Dribiwnlys a sefydlwyd yn unol â pharagraffau 15 ac 16 o'r Statud. (Paragraff 17 – Darpariaethau sy'n ymwneud â gweithdrefnau'r Tribiwnlys).
- (b) Y weithdrefn sydd i'w dilyn mewn perthynas â pharatoi, cyfuno, clywed a phenderfynu ar apeliadau fel y'u diffinnir yn Rhan V o'r Statud. (Paragraff 29–cyfeirir at ddarpariaethau ynghylch gweithdrefnau a phwerau apêl).
- (c) Y drefn sydd i'w dilyn wrth ystyried a phenderfynu ar gwynion. (Rhan VI – cyfeirir at Weithdrefnau Cwyno).

- 4.2 Mae Paragraff 7 (1) o'r Statud yn nodi "os bydd gwrthdaro, bydd darpariaethau'r Statud hwn yn drech na rhai unrhyw Statud arall ac yn drech na rhai'r Ordinhadau a'r Rheoliadau, a bydd darpariaethau unrhyw Ordinhad sydd wedi'i wneud o dan y Statud hwn yn drech na rhai unrhyw Ordinhad arall: Gwneir yr Ordinhad hwn o dan y Statud.

Mae paragraff Erthygl XI 4 o Siarter Atodol 2013 yn penderfynu bod unrhyw ddarpariaeth o Ordinhad, Rheoliad neu reol sefydlog 'sy'n anghyson â'n Siarter neu gyda'r Statudau, i raddau'r anghysondeb, yn ddi-rym'.

Mae'n hanfodol felly fod unrhyw un sy'n gwneud defnydd o'r Ordinhad hwn yn gwneud hynny gyda mynediad i rannau perthnasol y Statud.

- 4.3 Bydd yr Ordinhad yn cael ei ddehongli i roi effaith i'r egwyddorion arweiniol fel y nodir ym mharagraff 1 o Ran 1 o'r Statud.

- 4.4 Mae gan Brifysgol Caerdydd a phob aelod o staff, sy'n bartïon i gydberthynas rhwng cyflogwr a gweithwyr, rwymedigaeth yn y gyfraith i gynnal ymddiriedaeth a hyder cilyddol.

Mae dyletswydd ar Brifysgol Caerdydd trwy Siarter Atodol 2004 i hyrwyddo amcanion y Sefydliad ac i ddehongli'n gymwynasgar ofynion y Siarter honno.

- 4.5 Trwy gydol gweithredu unrhyw un o'r gweithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion yn erbyn staff a materion disgyblu, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol, cedwir at egwyddorion cyfiawnder naturiol i'r graddau ag y mae'n rhesymol ymarferol a bydd gan y person sy'n achos pryder yr hawl i fod yng nghwmni person a all fod naill ai'n gydweithiwr gwaith neu'n gynrychiolydd undeb llafur.

- 4.6 Gall gweithiwr

- a. wneud cwyn yn y Gymraeg
- b. ymateb i gŵyn yn y Gymraeg
- c. ymateb i faterion disgyblu yn y Gymraeg

- 4.7 Os bydd angen cynnal cyfarfod â gweithiwr ynghylch yr uchod, byddwn yn gofyn iddo a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod ac yn egluro y byddwn yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg i'r diben hwnnw os oes angen oni bai y gallwn gynnal y cyfarfod yn y Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu.

- 4.8 Pan fydd y Brifysgol yn cyfathrebu â gweithiwr ynghylch y trefniadau ar gyfer y broses o roi unrhyw ddiweddariadau, a rhannu'r canlyniad gydag ef, gwneir hynny yn y Gymraeg os yw'r gweithiwr:

- a. wedi gwneud y gŵyn yn y Gymraeg
- b. wedi ymateb yn y Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, neu
- c. wedi gofyn i'r broses gael ei chynnal yn y Gymraeg.

### **III GWEITHDREFN AR GYFER DELIO Â CHWYNION YN ERBYN STAFF A MATERION DISGYBLU AR WAHÂN I'R RHAI A YSTYRIR GAN DRIBIWNLYS**

#### **5. Ystyriaethau Cychwynnol**

- 5.1 Pan fydd sefyllfaoedd yn codi neu pan wneir honiadau sy'n bwrw amheuaeth ar ba mor briodol yw perfformiad neu ymddygiad aelod o'r staff academaidd ac mae ganddynt y potensial i arwain at gamau disgyblu, bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth neu unrhyw un sy'n gweithredu yn y rôl hon yn gweithredu i sefydlu'r ffeithiau allweddol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Yn y paragraffau canlynol cyfeirir at y potensial hwn fel 'yr achos dros bryder'.
- 5.2 Pan fo Pennaeth yr Ysgol/Gyfarwyddiaeth yn destun yr achos dros bryder, neu pan fyddai cynnwys Pennaeth yr Ysgol/Gyfarwyddiaeth wrth gymryd camau o'r fath yn arwain at wrthdaro buddiannau gwirioneddol neu bosibl, bydd uwch swyddog priodol, a benodwyd gan yr Is-Ganghellor, yn cymryd lle rôl Pennaeth Ysgol/Cyfarwyddiaeth wrth gymryd camau o'r fath. Wedi hyn ystyrir bod pob cyfeiriad at Bennaeth Ysgol/Cyfarwyddiaeth yn cynnwys cyfeiriadau at yr uwch swyddog priodol lle bo angen, wedi ei benodi gan yr Is-Ganghellor.
- 5.3 Pan fo'r achos dros bryder yn cynnwys honiadau o gamymddwyn ym maes ymchwil, bydd y ffeithiau'n cael eu sefydlu yn unol â Gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn ym maes Ymchwil Academaidd.
- 5.4 Pan fo'r achos dros bryder yn cael ei godi yn y lle cyntaf drwy God Ymarfer y Brifysgol ar Ddatgelu Budd Cyhoeddus neu'r Weithdrefn Cwynion Myfyrwyr bydd unrhyw ymchwiliad yn cael ei gynnal o dan yr Ordinhad hwn.
- 5.5 Pan fo'n ymddangos i Bennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth nad oes achos prima facie i ateb bydd ef/hi yn gwaredu'r mater.
- 5.6 Pan fo'n ymddangos i Bennaeth yr Ysgol/Gyfarwyddiaeth fod achos prima facie i ateb bydd ef/hi yn ystyried a ellir ymdrin â'r mater yn ffurfiol neu'n anffurfiol.
- 5.7 Ymdrinnir â 'Mân Ddiffygion' yn anffurfiol (paragraff 13.1 o'r Statud) i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol. Pan fo'r mater yn cael ei drin yn anffurfiol bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth yn cymryd y fath gamau fel y mae'n credu sy'n addas i ddatrys y sefyllfa.
- 5.8 Os yw'n ymddangos bod y mater yn fwy difrifol neu bod 'Mân Ddiffygion' yn cael eu hailadrodd a/neu heb eu datrys yn anffurfiol, bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth yn cymryd cyngor gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol neu swyddog priodol ac yn cynnal ymchwiliad yn unol â Rhan IV isod.

### **IV GWEITHDREFN SY'N YMWNEUD AG YMCHWILIAD PENNAETH YSGOL/CYFARWYDDIAETH O HONIADAU YNGHYLCH**

**YMDYGIAD/PERFFORMIAD STAFF ACADEMAIDD NEU FATERION  
DISGYBLU (paragraff 13.2 o'r Statud)**

**6. Ymchwiliad**

- 6.1 Bydd Pennaeth Ysgol/Cyfarwyddiaeth ar ôl cael cyngor gan y Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol yn penodi unigolyn i gynnal ymchwiliad ffurfiol i'r achos sy'n peri pryder. Bydd yr unigolyn hwnnw yn uwch aelod o staff academaidd y Brifysgol ac fe ddaw o'r tu allan i'r Ysgol/Gyfarwyddiaeth berthnasol.
- 6.2 Bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth yn sicrhau bod yr aelod o staff sy'n destun ymchwiliad yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol am yr achos dros bryder ac am enw'r unigolyn sy'n cynnal yr ymchwiliad.
- 6.3 Y person sy'n ymchwilio i'r achos pryder sy'n gyfrifol am sicrhau y ceir yr holl ffeithiau perthnasol yn brydlon, i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol a bod y sawl sy'n destun yr achos pryder yn cael cyfle i ddatgan ei achos yn rhan o'r ymchwiliad.
- 6.4 Bydd adroddiad ymchwiliad yn cael ei lunio gan y person sy'n ymchwilio i'r mater i'w ystyried gan Bennaeth yr Ysgol/Gyfarwyddiaeth.
- 6.5 Ar ddiwedd yr ymchwiliad, a heb oedi gormodol, bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth yn penderfynu ar gwrs priodol o weithredu yn unol â pharagraff 13 neu 14 o'r Statud.
- 6.6 Bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth yn hysbysu
- a) Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol;
  - b) y sawl sy'n destun yr achos dros bryder
- am ganlyniad ei ystyriaeth o'r ymchwiliad ac o'i benderfyniad a wnaed yn unol â 6.5 uchod.

**7. Gwrandawriad**

- 7.1 Pan ymddengys, ar ôl ymchwilio o dan 6 uchod, fod achos dros bryder yn ymddangos yn fwy difrifol na Mân Ddiffygion neu mae'n ymddangos bod Mân Ddiffygion wedi'u hailadrodd ond heb eu datrys, ond mae'n ymddangos bod yr achos dros bryder yn syrthio'n fyr o ffurfio achos da posibl dros ddiswyddo, bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth yn cynghori'r person sy'n destun yr achos pryder yn ysgrifenedig y cynhelir gwrandawriad.
- 7.2 Bydd yr hysbysiad ysgrifenedig i'r person sy'n destun yr achos dros bryder yn cynnwys y canlynol:-
- (a) manylion natur yr achos dros bryder;
  - (b) cefnogi deunydd amlwg;

- (c) ni fydd manylion dyddiad y gwrandawriad yn llai na 10 diwrnod gwaith o roi'r hysbysiad ysgrifenedig, ynghyd â manylion am amser a lleoliad y cyfarfod;
- (d) canlyniadau posibl y cyfarfod;
- (e) datganiad o'r hawl i cydweithiwr gwaith neu gynrychiolydd undeb llafur fod gyda chi yn y cyfarfod;
- (f) manylion y rhai sydd i fod yn bresennol yn y cyfarfod.

7.3 Gall Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth aildrefnu dyddiad y gwrandawriad a bydd y rhesymau dros y dyddiad newydd, a fydd fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad gwreiddiol, yn cael eu hysbysu i'r aelod o staff sy'n destun pryder. Gall yr aelod o staff sy'n achos pryder ofyn i Bennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth am i'r dyddiad gael ei aildrefnu os yw'r dyddiad gwreiddiol yn anaddas iddo/iddi, bydd cais o'r fath gan gynnwys esboniad pam bod angen ail-drefnu ac yn awgrymu dyddiadau amgen, fel arfer bydd o fewn 10 diwrnod gwaith i'r dyddiad gwreiddiol.

7.4 Bydd aelod o'r Gyfarwyddiaeth Adnoddau Dynol yn bresennol yn y gwrandawriad mewn swyddogaeth ymgynghorol.

7.5 Bydd y sawl sy'n destun yr achos dros bryder yn cael cyfle i ddatgan ei achos cyn i unrhyw benderfyniad gael ei wneud.

7.6 Os yw'r sawl sy'n destun yr achos dros bryder:

- (i) wedi dweud na fydd ef/hi yn mynd i'r gwrandawriad; ac
- (ii) mae'n methu â bod yn bresennol yn y gwrandawriad, ar ôl peidio â rhoi rheswm da dros fethu â mynd i'r gwrandawriad

gellir cynnal y gwrandawriad os na fydd y person hwnnw yn bresennol.

7.7 Ar ddiwedd y gwrandawriad, a heb oedi yn ormodol, bydd y person sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad (Pennaeth Ysgol/Cyfarwyddiaeth fel arfer) yn penderfynu ar gwrs priodol o weithredu yn unol â'r Statud a hysbysu'r person a oedd yn destun yr achos dros bryder mewn ysgrifen:

- (a) nad yw'r achos dros bryder wedi'i brofi ac na chymerir camau pellach yn unol â hynny;
- (b) bod yr achos dros bryder wedi ei brofi a bydd un o'r canlynol yn digwydd:
  - (i) ni chymerir unrhyw gamau pellach;
  - (ii) cymerir camau anffurfiol;
  - (iii) Cam 1 – Cyhoeddir Rhybudd Llafar (bydd hyn yn unol â pharagraff 13.2 o'r Statud);

- (iv) Cam 2 - Cyhoeddir Rhybudd Ysgrifenedig (bydd hyn yn unol â pharagraff 13.2 y Statud); neu
- (v) na fu gwelliant boddhaol yn dilyn Cam 2 blaenorol - Rhybudd Ysgrifenedig, neu y gallai'r achos dros bryder fod yn achos da dros ddiswyddo neu dynnu allan o'r swydd, ac (yn y naill achos neu'r llall) y bydd cwyn yn cael ei chyflwyno yn unol â pharagraff 14.1 o'r Statud.

Pan fydd Cam 1 - Rhybudd Llafar neu Gam 2 - Rhybudd Ysgrifenedig yn cael ei gyhoeddi bydd y person sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad hefyd yn hysbysu'r person sy'n destun Rhybudd am yr hawl i apelio yn ei erbyn (yn unol â pharagraff 13.2 o'r Statud).

- 7.8 Bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddwr yn cynghori Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol am ei benderfyniad.
- 7.9 Pan godwyd yr achos dros bryder fel rhan o gŵyn ffurfiol a ddygwyd o dan weithdrefn Cwynion Myfyrwyr, bydd Pennaeth yr Ysgol/Gyfarwyddiaeth yn sicrhau bod ei gyfrifoldebau o dan y weithdrefn berthnasol yn cael eu cyflawni wedyn.
- 7.10 Pan godwyd yr achos dros bryder o dan God Ymarfer y Brifysgol ar Ddatgelu Budd y Cyhoedd bydd Pennaeth yr Ysgol/Cyfarwyddiaeth yn adrodd ar y canlyniad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg, yn unol â pharagraff 11.1 y Cod.

## **V. APELIADAU YN ERBYN RHYBUDD LLAFAR CAM 1 NEU RYBUDD YSGRIFENEDIG CAM 2 (Paragraff 13.2 o'r Statud)**

### **8. Rhagarweiniad**

- 8.1 Mae darpariaethau dilynol y Rhan hon yn gymwys i apelio yn erbyn Rhybuddion Llafar a Rhybuddion Ysgrifenedig yn unig sef (paragraff 13.2 o'r Statud)

"Bydd aelod o'r staff academiaidd sy'n dymuno apelio yn erbyn rhybudd disgyblu yn hysbysu'r Cyfarwyddwr Rheoli Adnoddau Dynol neu aelod priodol arall o'r staff gweinyddol a ddynodwyd gan yr Is-Ganghellor o fewn pythefnos. Bydd y Dirprwy Is-Ganghellor a enwebwyd gan yr Is-Ganghellor yn clywed pob apêl o'r fath a bydd ei benderfyniad yn derfynol."

### **9. Darpariaethau sy'n ymwneud â phwerau a gweithdrefnau apelio**

- 9.1 Bydd y Rhag Is-Ganghellor a enwebwyd gan yr Is-Ganghellor yn:
  - (a) penderfynu ar y weithdrefn sydd i'w dilyn ar gyfer y gwaith paratoi ar gyfer cynnal gwrandawriad yr apêl fel y bydd yn cael ei chlywed a gwneir penderfyniad arno mor gyflym ag sy'n rhesymol ymarferol;
  - (b) cynnal y gwrandawriad fel y mae'n ei weld yn dda, gan gynnwys, pan fo'n briodol, cyfyngu ar dystiolaeth neu ar holi tystion; a



- (c) sicrhau y cedwir at egwyddorion cyfiawnder naturiol i'r graddau y mae'n rhesymol bosibl.

## **10. Penderfyniad**

- 10.1 Bydd penderfyniad y Rhag Is-Ganghellor yn derfynol, (paragraff 13(2) o'r Statud).
- 10.2 Bydd y Rhag Is-Ganghellor yn hysbysu'r Apelydd o'r penderfyniad.

## **VI. GWEITHDREFN TRIBIWNLYS YN ÔL Y GALW GAN BARAGRAFF 17 O'R STATUD**

### **11. Tribiwnlys**

- 11.1 Mae'n rhaid darllen darpariaethau Rhan VI o'r Ordinhad hwn ar y cyd â'r Statud.
- 11.2 Pan fydd yn ymddangos, yn dilyn ymchwiliad o dan 6 neu ar ddiwedd gwrandawriad o dan 7, y gallai fod achos da posibl dros ddiswyddo ac ar ôl i gŵyn gael ei chyflwyno yn unol â pharagraff 14.1 o'r Statud a chyfarwyddyd yr Is-Ganghellor yn unol â Pharagraff 15 o'r Statud, bydd y Cyngor yn penodi Tribiwnlys yn unol â Pharagraff 16 o'r Statud.

### **12. Paratoi**

